tafod elái

www.tafelai.com

Chwefror 2006 | Pris 60c | Rhif 204

Llywydd yr Urdd

Cyhoeddwyd mai Gavin Ashcroft o Bontypridd fydd Llywydd yr Urdd am y flwyddyn nesaf. Mae Gavin yn enedigol o Rydfelen ac wedi cael ei addysg yn Ysgol Heol y Celyn ac Ysgol Gyfun Rhydfelen. Astudiodd ffilm a theledu ym Mhrifysgol Cymru Aberystwyth ac mae nawr yn athro yn Ysgol Gynradd Gymraeg Llwyncelyn ym Mhorth.

Ymaelododd â'r Urdd yn Ysgol Heol y Celyn a gydag anogaeth John Rees, y Prifathro, bu'n rhan o dîm fu'n cystadlu'n frwd yn Eisteddfodau'r Urdd. Ymunodd â Dawnswyr Nantgarw ac ennill ym myd dawnsio gwerin a chlocsio. Roedd yn un o sylfaenwyr côr CF1 yng Nghaerdydd ac mae'n canu gyda Pharti'r Efail ac wedi ennill y ddeuwad gerdd dant gyda Menna Tomos sawl gwaith.

Yn ddiweddar mae wedi sefydlu côr newydd yn ardal Pontypridd - Côr y Bont - er mwyn creu cyfleoedd cymdeithasol i oedolion ifanc ac i gefnogi Clwb y Bont.

Hyfforddwr y Flwyddyn

Llongyfarchiadau mawr i Kathryn Morgan, athrawes ymarfer corff yn Ysgol Gyfun Rhydfelen, a gafodd ei henwi yn Hyfforddwr Y Flwyddyn gan Gyngor Chwaraeon Cymru.

Yn ogystal â'r gwaith hyfforddi yn yr ysgol, mae Kathryn yn hyfforddi timau pêl-droed dan 10 oed bechgyn a dan 11 a 15 oed merched yn Academi Pêl-droed Merthyr Tudful.

Mae hi hefyd yn chwarae pêl-droed i Academi Chwaraeon Bryste ac wedi chwarae mewn dros 50 o gêmau rhyngwladol i dîm pêl-droed merched Cymru dros y ddeng mlynedd diwethaf. Mae'n gyn-ddisgybl o Ysgol Gyfun Rhydfelen.

Derbyniodd ei gwobr oddi wrth Mr Alun Pugh, Gweinidog Dros Ddiwylliant, Y Gymraeg a Chwaraeon mewn seremoni yng Nghaerdydd.

Galw am Ddeddf Iaith

Mewn cyfarfod yng Nghanolfan y Mileniwm yng Nghaerdydd daeth llu o Gymry i gefnogi'r alwad am gryfhau'r hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob maes yng Nghymru.

Un o'r siaradwyr yn y cyfarfod, a drefnwyd gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg, oedd John Elfed Jones, cyn-gadeirydd Bwrdd yr Iaith. Dywedodd "Dydy'r orfodaeth ar y cyrff cyhoeddus ddim wedi mynd digon pell ac fe ddylai fod siopau archfarchnadoedd a busnesau mawr hefyd yn darparu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg." Galwodd ar y Cynulliad i ddatgan fod yr iaith Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru drwy ddeddf iaith newydd. "Y trysor mwyaf sydd gennym fel cenedl yw'r iaith Gymraeg".

Yn ogystal clywyd gan dri o bleidiau'r Cynulliad - y Rhyddfrydwyr, Plaid Cymru a'r Ceidwadwyr - fod angen diwygio'r sefyllfa bresennol, yn arbennig am fod y Blaid Lafur am gael gwared ar Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Hefyd bydd angen defnyddio pwerau newydd y Cynulliad i gryfhau statws y Gymraeg a chreu Comisiynydd Iaith.

Gellir gefnogi y galw am ddeddf iaith newydd drwy safle gwe: www.cymdeithas.com

Addysg Gymraeg o'r blynyddoedd cynnar – y cychwyn gorau posib i'ch plentyn

Am fwy o wybodaeth

LLINELL GYSWLLT

0845 607 6070

cyswllt@bwrdd-yr-iaith.org.uk

www.cymraeg-kids-soak-it-up.com

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

LLUNIAU
D. J. Davies
01443 671327
HYSBYSEBION
David Knight 029 20891353
DOSBARTHU
John James 01443 205196
TRYSORYDD
Elgan Lloyd 029 20842115
CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Cyhoeddir y rhifyn nesaf
ar 6 Mawrth 2006
Erthyglau a straeon
i gyrraedd erbyn
24 Chwefror 2006

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040

Tafod Elái ar y wê
http://www.tafelai.net
e-bost
pentyrch@tafelai.net

Argraffwyr:
Gwasg Morgannwg
Uned 27, Ystad
Ddiwydiannol
Mynachlog Nedd
Castell Nedd SA10 7DR
Ffôn: 01792 815152

Yr Awr Fawr

Rhaglen newydd ar GTFM
106.9FM ac ar lein ar
www.gtfm.co.uk
Bob nos Sul 7 tan 8
Chwedeg munud o'r
gerddoriaeth Gymraeg
gorau yn y byd!!!
Newyddion a digwyddiadau yn
ardal Rhondda Cynon Taf.
GTFM 106.9FM
Ffôn: 01443 406111

CYLCH CADWGAN

Emyr Lewis
yn darllen
a thrafod ei waith
yn
Neuadd y Pentref, Efail Isaf
Nos Wener 24 Mawrth
am 8.00pm.

MERCHED Y WAWR

Cangen y Garth

Nos Fercher, 8
Chwefror, 8yh

Nerys Howell

Coginio - Swper
Sydyn

Ysgol Creigiau
Am ragor o fanylion, ffoniwch:
Ros Evans, Ysgrifennydd
029 20899246

CYMDEITHAS GYMRAEG LLANTRISANT

Cinio Gŵyl Ddewi
Yn Nhŷ Bryngarw

Nos Wener
3 Mawrth

Tocynnau:
01443 218077

www.cwlwm.com
Gwybodaeth am holl
weithgareddau Cymraeg yr ardal.

CLWB Y DWRLYN

Gyrfa Chwist
Yng Nghlwb Rygbi Pentyrch
8pm 15 Chwefror 2006
Dewch â phac o gardiau gyda chi

Cinio Gŵyl Ddewi
yng
Nghlwb Golff Radyr
Prynhawn Sul
19 Mawrth 2006
Siaradwr gwadd
Dafydd Wigley

(Tocynnau: 029 20890961)

GORYMDAITH DEWI AR EI FFORDD !

Bydd Gorymdaith Genedlaethol Dydd Gŵyl Dewi yn y brifddinas yn cychwyn am 3 o'r gloch, brynhawn dydd Mercher, 1 Mawrth. Man cychwyn yr orymdaith fydd Gerddi Soffia (ger tafarn *Y Mochyn Du*). Fe aiff yr orymdaith ar ei hynt wedyn i lawr Heol y Gadeirlan, ar hyd Stryd Westgate, Wood Street, ac i fyny Heol Eglwys Fair, gan orffen o flaen yr Amgueddfa Genedlaethol ym Marc Cathays.

'Mae'r Orymdaith yn agored i bawb,' medd Gareth Westacott, ar ran Pwyllgor Llywio'r Orymdaith, 'ac yn gyfle i bobl Cymru - beth bynnag eu hoedran, eu cefndir ethnig neu gefndir cymdeithasol - i bobl o dras Cymreig (neu y rhai sydd am fod yn Gymry!) - i ymuno mewn dathliad creadigol ac urddasol o ddiwylliant, treftadaeth, a hunaniaeth Cymru.'

Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant

Pantomeim
Fe aeth disgyblion Blynyddoedd 1 i 6 i'r Miwni ym Mhontypridd ddydd Gwener yr ugeinfed o Ionawr i weld perfformiad Cwmni Mega o "Hela'r Twrch Trwyth". Roedd y plant wrth eu bodd wrth wylio'r sioe, a oedd yn seiliedig ar chwedl Culhwch ac Olwen.

P.C.Jones
Fe alwodd P.C. Jones draw i'n gweld ar y pedwerydd ar hugain o Ionawr. Bu'n trafod "Afal y Dydd" (sef trin a thrafod moddion) gyda Blynyddoedd 1 a 2, a "Bwlian" gyda Blwyddyn 3.

Nofiwr o fri
Pob lwc i Ryan David o Flwyddyn 6 sy'n cystadlu yn rownd derfynol gala nofio'r Urdd yn Abertawe ar yr 28ain o Ionawr. Edrychwn ymlaen at glywed sut hwyl gafodd e.

Adran yr Urdd
Trefnwyd dau gyfarfod yn ystod mis Ionawr - un dan ofal Delyth o'r Urdd, a'r llall yn gyfarfod rhamantus iawn i ddathlu Dydd Santes Dwynwen. Cafwyd amser hwyliog gyda chyplau'n cystadlu yn y gystadleuaeth Siôn a Siân.

Diogelwch ar y ffordd
Bydd cwmni "Jugglestruck" yn perfformio'u sioe ar ddiogelwch y ffyrdd i ddisgyblion Cyfnodau Allweddol Un a Dau ar y nawfed o Chwefror.

S.O.S.
Tro YGGG Llantrisant yw hi eleni, i drefnu Eisteddfod Gylch yr Urdd a gynhelir yng Nghanolfan Hamdden Llantrisant ar ddydd Gwener y 10fed o Fawrth (rhwng 10.00 am a 1.00 pm). Os oes awr sbâr gyda chi, a'ch bod chi'n fodlon cadw cofnodion o'r enillwyr, derbyn arian wrth y drws, ac ati, mi fydden ni'n falch iawn o glywed gennych. Cysylltwch â Mair Williams ar 01443 237837. Diolch yn fawr.

Ysgol Gymraeg Castellau

Croeso
Croeso mawr i Miss Jade Hudson a fydd yn dysgu plant y Feithrin am ddau dymor yn lle Mrs. Siân Lloyd sydd ar gyfnod mamolaeth. Croeso mawr hefyd i 6 o blant newydd i'r Feithrin - maent wedi ymgartrefu'n barod.

XL Wales
Braf oedd croesawu Mrs. Rhian Carbis, XLWales, i'n plith am ddau ddiwrnod ar ddechrau'r tymor unwaith eto. Roedd ymateb y plant yn wych wrth i bob dosbarth gydweithio ar brosiectau a gweithgareddau Technoleg. Diolch yn fawr iddi am ei chyflwyniadau bywiog a manwl.

Sort Orau
Daeth Ceri Evans i siarad â phant Blwyddyn 6 er mwyn hybu ymwybyddiaeth o gyffuriau. Cyflwynodd gweithgareddau grŵp diddorol a sesiynau trafod.

Rvgbi.
Colli bu hanes tîm rygbi'r ysgol ym Mis Ionawr yn rownd gogynderfynol Cwpan Ysgolion Pontypridd yn erbyn Ysgol Pont Sïon Norton. Y sgôr oedd 10-1 o ar ddiwedd y gêm ond sgoriodd Pont Sïon Norton cais yn ystod yr amser ychwanegol. Dalier ati dîm rygbi Castellau.

Gweithdy
Aeth disgyblion Blwyddyn 6 ar ymweliad â Phrifysgol Cymru yn Nhrefforest ar ddiwedd Mis Ionawr. Bwriad yr ymweliad oedd mynychu gweithdy ysgrifennu a hefyd cael rhywfaint o flas campws Prifysgol.

Pantomeim
Unwaith eto mwynhaodd plant blynyddoedd 1-6 y pantomeim `Hela'r Twrch Trwyth', yn theatr y Miwni ym Mhontypridd. Cafwyd yr hwyl arferol a phawb wrth eu bodd.

Ymweliad.
Diolch yn fawr i un o dadau'r ysgol, Mr Gildas Griffiths, a'i gyd-weithiwr Mr Nigel Lloyd, am ddod ag ambiwlans i'r ysgol i blant yr Adran o dan 5. Fel rhan o waith y tymor `Pobl sydd yn ein helpu', cafodd y plant y profiad o weld gwaith y `paramedic', a'r offer sydd y tu mewn i'r ambiwlans.

Yn ystod y mis hefyd cafwyd cyflwyniad bywiog gan gwmni `Jugglestruck', ar y testun, 'Diogelwch y ffordd'. Diolch yn fawr iddynt hwy.

Myfyrwraig.
Croesawn unwaith eto Mrs. Lindsey Jones i'n plith am wythnos o ymarfer dysgu yn nosbarth Mr Dafydd Iolo Davies ar Ionawr 30 gyda phlant Blwyddyn 6. Pob hwyl iddi.

Pen-blwydd Hapus i UCAC

Mae Owen John Thomas AC, sy'n aelod o Bwyllgor Addysg y Cynulliad, wedi dymuno pen-blwydd hapus i Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru, gan bwysleisio pwysigrwydd cyfraniad yr undeb ers ei ffurfio yng Nghaerdydd ym mis Rhagfyr 1940.

Dywedodd Mr Thomas: "Mae'n anodd rhoi gormod o bwys ar gyfraniad UCAC yn y 65 mlynedd ers ei sefydlu - mae ei waith o hyrwyddo addysg Gymraeg wedi bod yn amhrisiadwy.

Mae wedi cyfrannu'n helaeth at sicrhau bod darpariaeth ddigonol o adnoddau ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg. Byddai darparu addysg Gymraeg wedi bod yn amhosibl heb yr arweiniad hwn.

Peth prin ar y naw yw Undeb Llafur gwirioneddol Gymreig a Chymraeg, felly dylem ei drysori. Rwy'n falch o glywed bod ei aelodaeth ar gynnydd, mae'n rhoi gobaith y bydd y blynyddoedd i ddod yr un mor llewyrchus."

EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

Croeso i'r pentref
Symudodd Dawn a Gwion Rees i Bentref Efail Isaf ganol Mis Rhagfyr. Cafodd Gwion ei fagu ym Mhenywaun. Croeso nol i'r pentref, Gwion, a gobeithio y byddwch eich dau'n hapus iawn yn y pentref.

Cydymdeimlo
Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Robert a Bethan Emanuel ac i Ioan bach, Tŷ Gwyn, Heol y Parc ar golli tad Robert ar y deunawfed o Ragfyr.

Cyfreithiwr yn nhref Aberteifi oedd Mr Huw Emanuel a chydymdeimlwn â Mrs Beti Emanuel, ei weddw a'r teulu i gyd.

Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant hefyd i Judith a John Llewellyn Thomas, Nantcelyn ar farwolaeth tad John, Mr Len Llywellyn Thomas, Cwmafan, ddydd Mawrth, Ionawr l7ed. Yn ystod yr Haf, llynedd bu mam a thad John yn dathlu chwe deg blynedd o briodas. Estynnwn ein cydymdeimlad i Mrs Gwen Thomas a'r wyrion, Ruth, Gethin ac Owain a hefyd Gruffudd bach, ei or-ŵyr.

Teulu arall a brofodd golled adeg gwyliau'r Nadolig oedd teulu Mrs Hilda Roberts, Heol y Ffynnon. Bu farw Mrs Hilda Roberts yn Ysbyty Dewi Sant, Pontypridd ar Ddydd Nadolig. Estynnwn ein cydymdeimlad i'r teulu a'i ffrindiau.

CORAU'R PENTREF
Côr Godre'r Garth.
Cynhaliwyd cyngerdd Nadolig gan Gôr Godre'r Garth yng Nghapel y Tabernacl, Efail Isaf nos Sul, Rhagfyr l8fed. Cafwyd amrywiaeth o garolau, caneuon gan gyfansoddwyr Cymreig, megis Brian Hughes, Robert Arwyn a Gareth Glyn ac anthemau gan Brahms a Handel. Yr unawdydd oedd Osian Rowlands ac fe ddaeth ei frawd Deian Siôn i gyfeilio iddo ar y delyn gan roi cyflwyniad gwefreiddiol o gylch o dair cân werin gan William Mathias.

Eilir Owen Griffiths oedd arweinydd brwdfrydig y côr a Branwen Evans oedd y cyfeilydd. Cafwyd gwledd o noson i'n paratoi ar gyfer y Nadolig.

Bu'r Côr hefyd yn ymddangos ar raglen ardderchog o Dechrau Canu, Dechrau Canmol gyda Chôr Serendipity ar Ddydd Nadolig.

Fe fydd y Côr yn hynod o brysur yn ystod y misoedd nesaf. Ar y gweill mae perfformiadau o'r Requiem gan Brian Hughes, taith i Bafaria yn ystod gwyliau'r Pasg yn ogystal â pharatoi i gystadlu yn Eisteddfod Rhyngwladol Llangollen.

Côr Merched y Garth.
Bu aelodau Côr Merched y Garth yn diddanu trigolion Cartref Henoed, Garth Olwg cyn y Nadolig. Dyddiad arall blynyddol yng nghalendr y côr yw ymweliad ag Ysbyty Llwynypia i ganu carolau i Mererid, un o'n cyn aelodau, sydd wedi bod yn wael yno ers tro.

Roedd yn braf cael gwahoddiad nol i Faes yr Haul wedyn am ddiod bach a mins peis i gwblhau'r tymor mewn steil. Diolch Glenys am y croeso a'r cyfle i gymdeithasu. Profiad newydd i'r merched oedd canu yng ngwasanaeth Plygain Eglwys Bethlehem, Gwaelod y Garth nos Sul, Ionawr 8fed, a hynny yng ngolau cannwyll. Ar hyn o bryd mae aelodau'r côr yn brysur yn paratoi ar gyfer eu taith i'r Iwerddon i gystadlu yn yr Ŵyl Ban Geltaidd.

Parti'r Efail.
Fe gyfrannodd aelodau Parti'r Efail eitemau yng Ngwasanaeth Y Plygain ym Methlehem, Gwaelod y Garth ac wedyn fe wnaethon nhw deithio yn eu blaen i ardal Caerffili, ar yr un noson i gefnogi'r Plygain yng Nghapel Bethel. Yn ystod Mis Rhagfyr bu'r Parti'n canu yn Nhonyrefail, a phrynhawn Sul, Ionawr 23ain roedd y bechgyn i'w clywed ar Y Lanfa yng Nghanolfan y Mileniwm yn y Bae. Bu'r Parti'n rhannu llwyfan gyda Chôr Merched lleol yn ardal Llandeilo ar Nos Sadwrn, Ionawr 28ain.

Y TABERNACL
Gwasanaethau'r Nadolig.
Daeth cynulleidfaoedd lluosog i bob un o Wasanaethau'r Nadolig yn y Tabernacl. Fe berfformiodd y plant eu heitemau gyda graen ac yn wobr fe ymwelodd Sïon Corn â'u parti Nadolig yn Neuadd y Pentre yn dilyn yr oedfa.

Y Sul canlynol tro aelodau Teulu Twm oedd cynnal yr Oedfa ac fe gawsom gyflwyniad diddorol iawn ganddynt. Fe fyddwn yn cofio perfformiad Alun Evans fel Laurence Llywelyn Bowen am hir.

Aeth criw da o gantorion i ganu carolau o amgylch tai Nantcelyn ar Nos Fercher Rhagfyr 2lain gan godi swm o £130.00 i Gronfa Hosbis George Thomas.

Roedd y capel yn llawn ar gyfer Gwasanaeth Noswyl y Nadolig fel arfer a bu llawer o unigolion, partïon a chorau bach yn cyflwyno caneuon ac eitemau. Geraint Rees fu'n llywio'r noson gan fod Y Parchedig Eirian Rees yn dioddef o anhwylder ar y noson.

Trefn newydd.
Ers dechrau'r flwyddyn mabwysiadwyd trefn newydd yn yr eglwys lle bydd criw bach o aelodau yn cymryd mwy o gyfrifoldeb am y Suliau, gan baratoi'r daflen wythnosol a chydlynu'r trefniadau. I hwyluso'r gwaith hwn dylid anfon pob cyhoeddiad sydd i'w gynnwys yn y daflen at Emlyn Davies erbyn y Dydd Iau cyn y Sul. Gellir cysylltu trwy emlyn.davies@which.net neu 029 20891344 neu 07900491257.

Cydymdeimlo
Gyda thristwch rhaid cofnodi marwolaeth ein haelod hynaf, Y Parchedig Glyndwr Williams, Tonteg. Bu'n dathlu ei ben-blwydd yn ddeg a phedwar ugain oed ar y 29ain o Ragfyr. Cydymdeimlwn yn ddiffuant â Gethin, ei fab a'r teulu.

Suliau Mis Chwefror
Chwefror 5ed. Oedfa Gymun o dan arweiniad Y Gweinidog
Chwefror 12ed. Y Parchedig Aled Edwards, Cilfynydd.
Chwefror 19eg. Plant yr Ysgol Sul
Chwefror 26ain Mr Emlyn Davies

Ysgol Gymraeg Tonyrefail

Croeso Cynnes
Croeso cynnes iawn i'n tri athro newydd: Miss Carys Jones (dosbarth Derbyn) sy'n dod o Geredigion yn wreiddiol, Miss Anna Morris (blwyddyn 4) sy'n dod o'r Rhondda a cyn-ddisgybl o Ysgol Gyfun Rhydfelen a Mr Owen Phillips (blwyddyn 5) sy'n dod o Ben-y-bont ar Ogwr ac yn gyn-ddisgybl o Ysgol Gyfun Llanhari. Gobeithio y byddwch chi'n hapus iawn yn ein hysgol.

Hwyl a Sbri yn Llangrannog
Aeth dros 40 o ddisgyblion blwyddyn 5 a 6 bant am y penwythnos i Langrannog. Cawson nhw'r cyfle i fwynhau gweithgareddau di-rif - sgïo, go-cartio, nofio, ceffylau, cwrs rhaffau i enwi ond rhai - a phopeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Diolch yn fawr iawn i'r pedwar aelod o staff a aeth gyda nhw.

Corff Iach - Meddwl Iach
Llongyfarchiadau i bawb! Does neb yn bwyta creision ar iard yr ysgol erbyn hyn. Yn anffodus, dydy hi ddim wedi bod yn bosib dechrau gwerthu ffrwythau yn ystod amser egwyl oherwydd yr achosion o'r gwenwyn bwyd, e-coli yn yr ardal. Mae'r plant yn cymryd rhan mewn llawer o weithgareddau chwaraeon - pêl-droed, pêl-fasged, rygbi a phêl-rwyd. Roedd mwy byth o bwyslais ar ffitrwydd yn ystod yr Wythnos cadw'n Heini.

Talentau Ton
Llongyfarchiadau i Abbie Watson, blwyddyn 4 a enillodd ras traws gwlad yr Urdd yn ei grŵp oedran. Bu Abbie'n cystadlu yn erbyn disgyblion o'r holl ysgolion Cymraeg cyfagos. Dal ati!

Cornel y Cyngor
Mae'r Cyngor Ysgol yn cwrdd yn gyson ac yn trafod sut i wella amser chwarae i bawb. Y syniad yw creu cornel tawel ar yr iard.

Clwb Celf
Bydd Mr Phillips yn cynnal Clwb Celf ar gyfer yr Adran Iau bob yn ail ddydd Mercher yn syth ar ôl yr ysgol. Edrychwn ymlaen at weld eich cynnyrch yn addurno'r ysgol.

Job Trac Cymru

Canolfan Datblygu Busnes
Ystad Diwydiannol Trefforest
Pontypridd
CF37 5UR

T: 01443 843800
F: 01443 205735
E: post@jobtraccymru.co.uk
W: www.jobtraccymru.co.uk

Ydych chi'n

- CHWILIO AM SWYDD?
- CHWILIO AM WEITHWYR SY'N SIARAD CYMRAEG?
- CHWILIO AM YMGYNGHORWYR ADNODDAU DYNOL?

Adnoddau Dynol a Recriwtio Cymraeg

Ysgol Heol-y-Celyn

I ddechrau'r mis yma rhaid llongyfarch Mr Christian Cool ar enedigaeth ei fab, James. Mae dad wedi dotio ac yn cerdded o amgylch yr ysgol a gwen ar ei wyneb er y nosweithiau digwsg!

Rhaid llongyfarch tîm athletau'r ysgol hefyd ar ddod yn gyntaf yn y rownd gynderfynol yng Nghanolfan Hamdden Llantwit Fardre ar y l0ed o Ionawr. Roeddent yn erbyn ysgolion Dolau, Llwyncrwn a Choed-y-lan. Roedd tîm merched a thîm bechgyn. Y plant a gymerodd ran oedd Natalie Davies, Laura Williams, Alex Birch, Alex Powell, Rachel Burton, Amy Baker, Bradley Jones, Celynd Hope, Daren Cartwright, Dominic Duence, Adam Baker a Jordan Webber.

Rhaid nawr dymuno pob lwc iddynt yn y rownd derfynol ddydd Llun y l6eg o Ionawr yn Nhonyrefail. Da iawn chi blant a Mrs Charles am eu hyfforddi a phob lwc i chi yn y rownd nesaf.

Yn olaf y mis yma mae'r ysgol yn cael 'Wythnos Ddisgyblaeth' yn dechrau ar y 9fed, pan fydd yr athrawon yn cyflwyno strategaeth disgyblaeth newydd yn yr ysgol ac yn selio gwaith yr wythnos i gyd ar ddisgyblaeth, sut dylen ymddwyn yn yr ysgol ac yn y gymuned. I atgyfnerthu'r dysgu mae'r heddlu yn dod i mewn i drafod gwahanol agweddau ar sut i ymddwyn gyda'r plant. Fel rhan o'r wythnos ddisgyblaeth mae'r plant yn ymweld â Sain Ffagan i weld sut mae amser wedi newid ers i blant fynd i'r ysgol yn oes Victoria ac i'r plant sylweddoli pa mor lwcus ydynt y dyddiau yma yn yr ysgol.

Aelwyd y Bont

7.30 Bob nos Lun
yng Nghlwb y Bont,
Pontypridd
croeso i aelodau newydd
Ffoniwch Del Caffrey
01443 493184

YSGOL GYFUN RHYDFELEN

Sgiliau Bywyd Blwyddyn 10
Fel rhan o'n Cymhwyster Clwb XL Ymddiriedolaeth y Tywysog rydym wedi bod yn brysur yn golchi ceir ein hathrawon er mwyn codi arian tuag at Plant Mewn Angen. Fe gasglom £60. Ein gobaith ydyw ychwanegu at y swm yma yn ystod y misoedd nesaf. Diolch i bawb a'n cefnogodd.

Emma Morris a Jenna Preece

Sgiliau Bywyd Blwyddyn 11
Fel grŵp rydym wedi bod yn brysur iawn yn ystod y tymor. Ar ddechrau'r tymor aethom i Gwrtycadno a chael amser ffantastig.

Ar gyfer ein huned "gweithio yn y gymuned" fe drefnodd Mr Caffery ein bod yn tacluso'r ardal o gwmpas yr ysgol. Roedd yn waith caled a blinedig am fod tipyn o sbwriel o gwmpas y lle. Roedd gweld ein gilydd wedi gwisgo mewn gwisgoedd arbennig y Cyngor yn dipyn o hwyl.

Hefyd rydym wedi bod yn ymarfer ein Sgiliau Cymorth Brys ac wedi dysgu llawer am dechnegau achub bywyd. Gallwn yn awr rhoi person yn safle'r ystum adferol ac adfer bywyd pe fydde angen. Medrwn hefyd drin anafiadau o dor asgwrn i gwt bach. Gobeithio na fydd yn rhaid i ni ddefnyddio llawer o'r technegau fyth!!

Diolch yn fawr i Mrs. Jan Lewis am ein dysgu. Mae Mrs. Lewis yn dweud fod tymor nesaf yn mynd i fod yr un mor brysur.

Corrie Porch, Grant Wiosna ac Amy Way

Nia Ben Aur
Rhan bwysig iawn o hunaniaeth Ysgol Gyfun Rhydfelen yw ein henw da am gynyrchiadau dramatig rhagorol ac ansawdd da y perfformwyr ifanc a hyfforddir yma. Caiff bob disgybl wersi drama o flwyddyn 7 i 9, ac wedyn gallant ddewis ei astudio ar gyfer TGAU a Lefel A. Cynigia'r ysgol TGAU a Lefel A mewn Astudiaethau Cyfryngau hefyd.

Golygfeydd o Nia Ben Aur

Ym mis Tachwedd 2005, cyflwynodd Ysgol Gyfun Rhydfelen y ddrama-gerdd hudol Nia Ben Aur, addasiad o chwedl draddodiadol Wyddelig. Cynhaliwyd y cynhyrchiad dros dair noson lwyddiannus dros ben, gyda sioeau yn ystod y dydd ar gyfer yr ysgolion cynradd lleol. Disgrifiwyd y sioe fel "Rhagorol" gan aelodau'r gynulleidfa, gan ganmol canu swynol y disgyblion yn enwedig. Edrychwn ymlaen at glywed beth mae Mr Peter Davies, Pennaeth yr Adran Ddrama, yn cynllunio ar gyfer y cynhyrchiad cyntaf yn yr ysgol newydd.

Taith Barcelona 2005
Llawn cyffro a nerfusrwydd, dyna sut y teimlai pawb wrth iddynt ffarwelio a'u ffrindiau a'u teuluoedd. Gadawodd 40 o ddisgyblion, tri athro ac un cynorthwy-ydd o'r ysgol ddydd Mercher y pedwerydd a'r ddeg o Hydref.

Wedi teithio ar y bws o Gymru i Sbaen am 28 awr roedd hi'n hwyr nos Iau arnom yn cyrraedd, ac erbyn i ni gyrraedd y gwesty yr unig beth oedd ar ein meddyliau oedd cwsg.

Ben bore wedyn dechreuon ar ein "guided tour" o Barcelona. Cerddom drwy y Las Ramblas, sef un o brif strydoedd Barcelona. Cawsom gyfle i brofi awyrgylch unigryw'r ardal ac edrych ar y gwahanol stondinau a oedd yn gwerthu pob lliw a llun o nwyddau, anifeiliaid anwes, adar lliwgar, crwbanod a physgod.

Aethom i'r Sagrada Familia a Parc Guell, lle crwydrom am awr yn edrych ar y cerfluniau ac adeiladau lliwgar a diddorol. Yna fe yrrom heibio'r Stadiwm a'r Pentref Olympaidd (1992).

Fe wnaethom ymweld â'r stadiwm a'r amgueddfa bêl-droed. Roedd llawer ohonom yn edrych ymlaen yn eiddgar at fynd i mewn i'r stadiwm, ond doedd ein gwefr ni yn ddim i gymharu ag ymateb Mr Thomas wrth iddo gerdded drwy'r mynediad i weld y stadiwm enfawr.

Yr Adeilad Newydd
Y newyddion diweddaraf yw y bydd yr adeilad yn barod erbyn Sulgwyn, felly gobeithiwn symud yn ystod ail hanner tymor yr haf.

Penodwyd Mrs Wendy Edwards yn Rheolwr y Ganolfan Ddysgu Gydol Oes sy'n rhan o'r campws. Mae Mrs Edwards yn Gyfarwyddwr Datblygu gydag Antur Teifi ar hyn o bryd, a chyn hynny bu'n Bennaeth Adran Hanes. Edrychwn ymlaen at ei chroesawu pan fydd yn dechrau ar ei swydd ddechrau Chwefror.

Theatr Genedlaethol Cymru

DOMINOS
Cyfarwyddwraig Judith Roberts

Theatr y Sherman, Caerdydd
8pm 14 - 17 Chwefror
029 20646900

Cwmni Theatr Arad Goch

Tafliad Carreg
Y Miwni, Pontypridd
1pm 14 Chwefror

Chapter, Caerdydd
8pm 21 Chwefror

Ganrif Wedi'r Diwygiad: Arolwg Newydd o Gapeli Cymru

Union ganrif wedi diwygiad rhyfeddol Evan Roberts a ysgubodd Gymru yn 1904-05 cyhoeddir arolwg newydd o sefyllfa capeli anghydffurfiol yng Nghymru heddiw. Yn y llyfr *Capeli Cymru* a gyhoeddir gan Y Lolfa dangosir sefyllfa bresennol aelodaeth rhai o gapeli mwyaf arwyddocaol Cymru.

Er bod dirywiad amlwg, a phryder am ddyfodol nifer o fawr o gapeli Cymru, mae'r awdur yn gweld arwyddion cadarnhaol a llwyddiant rhai ardaloedd i ffynnu ac addasu yn wyneb y lleihad yn yr aelodaeth:

"Mae'r capeli yn rhan eithriadol bwysig o'n treftadaeth sy'n cael ei ddiystyru gan y wasg yn aml iawn fel ystrydeb sy'n rhan o'r gorffennol, ond mae yna frwdfrydedd arbennig mewn llawer iawn o'n capeli a llwyddiant i addasu i'r oes fodern."

Yn y gyfrol *Capeli Cymru* rhoddir sylw i 111 o gapeli Cymraeg, yn cynnwys nifer o'r rhai enwocaf fel capel Evan Roberts ym Mlaenannerch, capel Soar y Mynydd a chapel Gwynfil, Llangeitho. Ceir braslun o hanes pob capel, y gweinidogion a manylion am yr aelodaeth bresennol gan gofnodi sut oedd sefyllfa'r capeli ar 1 Ionawr 2004.

Ymhlith y capeli mae dau gapel sy'n ganghennau o Gapel Taihirion sef Bethlehem, Gwaelod y Garth, a Tabernacl, Efail Isaf. Mae'r ddau gapel yn parhau i fod yn llewyrchus ac yn ganolfan i fwrlwm cymdeithasol.

Daw Huw Owen o Cross Hands ond mae bellach yn byw yn Aberystwyth. Bu'n geidwad Darluniau Mapiau Llyfrgell Genedlaethol Cymru, ond mae bellach wedi ymddeol ac yn weithgar gyda'r gymdeithas Capel.

Capeli Cymru £14.95
Cyhoeddir gan Y Lolfa

MENTRAU MORGANNWG GWENT

GWASANAETH CYFIEITHU AR BAPUR
(Saesneg - Cymraeg / Cymraeg - Saesneg)

GWASANAETH CYFIEITHU AR Y PRYD
(Cymraeg - Saesneg)

GWASANAETH LLOGI OFFER CYFIEITHU

GWASANAETH O SAFON AM BRIS RHESYMOL

RHIAN POWELL, CYFIEITHYDD CYMUNEDOL
MENTRAU MORGANNWG GWENT
01685 877183
rhianpowell@menteriaith.org

Morgeisi ar-lein – y Principality'n gyntaf yn Gymraeg

Meri Huws ac Alun Pugh gyda Tracy Morshead ac Ian Davis o'r Principality.

Mae Cymdeithas Adeiladu'r Principality wedi lansio gwasanaeth ymgeisio am forgais ar-lein – a'r cyfan yn iaith y nefoedd! Cymdeithas adeiladu fwyaf Cymru yw'r cwmni gwasanaethau ariannol cyntaf i gynnig y fath ddarpariaeth yn y Gymraeg, gan obeithio denu'r "Rhyngrwydd", sef Cymry Cymraeg sy'n gyfarwydd â defnyddio'r rhyngrwyd yn feunyddiol.

Mae'r gwasanaeth ar gael ar safle rhyngrwyd www.principality.co.uk sy'n gwbl ddwyieithog. Mae'r cynllun wedi cael cefnogaeth Bwrdd yr Iaith a Gweinidog Diwylliant, yr Iaith Gymraeg a Chwaraeon y Cynulliad, Alun Pugh AC.

Dywedodd y Gweinidog Alun Pugh: "Fel rhan o weledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru o greu Cymru gwir ddwyieithog, rydym am gynyddu'r nifer o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd o'u bywydau. Mae'r safle gwe hwn yn adnodd arloesol, sy'n galluogi pobl i wneud un o ymrwymiadau mwyaf eu bywydau yn eu dewis iaith!"

Ategodd Meri Huws, cadeirydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg, neges y Gweinidog: "Fel arloeswyr yn eu maes, mae'r Principality yn arwain y ffordd drwy ofalu bod y Gymraeg yn rhan naturiol o fusnes ac o fywyd.

Yn ôl Ian Davis, rheolwr marchnata e-fusnes y Principality, "Mae e-fusnes yn rhan annatod o strategaeth y gymdeithas wrth i ni gynnig ffyrdd newydd i'n cwsmeriaid gysylltu â ni sy'n ychwanegu at wasanaeth ein canghennau ar y stryd fawr."

CREIGIAU

Gohebydd Lleol: Nia Williams

Bu'r Nadolig yn gyfnod o emosiynau cymysg – y llon a'r lleddf, y dagrau a'r dathlu. Blwyddyn newydd dda i holl ddarllenwyr y golofn hon – a chofiwch anfon eich newyddion atom er mwyn i ni gael eu rhannu.

Profedigaethau
Estynnwn ein cydymdeimad llwyraf i ddwy chwaer yma'n y Creigiau – sef Joan a Maureen a'u teuluoedd a welodd golli eu Mam ychydig cyn y Nadolig. Brodor o Frynaman oedd Mrs Tucker ond roedd wedi symud i fyw i'r Creigiau ers rhai blynynoedd a Joan a Maureen yn fawr eu gofal ohoni.

Cydymdeimlwn hefyd â Mrs Biddy Jones, Parc y Fro. Bu farw Doug ei gŵr wedi gwaeledd, eto jest cyn y Nadolig.

Ar ddydd Calan eleni profodd Lyn Morgan a'r teulu golled enbyd. Bu farw Grace Violet Morgan, mam Lyn, wedi cystudd byr, yn Ysbyty Glangwili.

Llongyfarchiadau mawr i …
… dair merch ifanc landeg sydd wedi dyweddïo dros y Nadolig. Dymunwn yn dda i Rachel Edwards, Parc y Fro ar ei dyweddïad gyda Steve Jones. Athro yw Steve – o Bort Talbot yn wreiddiol ac mae Rachel yn Weithwraig Gymdeithasol yng Ngwent ar hyn o bryd.

Llongyfarchwn Siwan Thomas, Parc Castell y Mynach a Dr Simon Oldham o Lundain, ar eu dyweddiad. Gweithio i Glaxo Smith Kline yn Llundain mae Siwan tra bo Simon yn ddeintydd yn y ddinas fawr.

Gyferbyn â chartref Siwan yng Nghymru mae cartref genedigol Keryn Treharne – rhaid llongyfarch Keryn yn ogystal ar ei ddyweddïad gyda Joni May, cyfreithwraig o Gaerdydd sy'n gyn-ddisgybl o Ysgol Gyfun Glantaf.

A beth am hyn am ramantus? Gwnaeth Virginia MacDonald a Ian Harvey ddyweddïo ar y llethrau sgio yn Ffrainc! Mae rhamant yn sicr yn dal yn fyw i bobl ifainc ein pentref ni! Pob dymuniad da i chi i'r dyfodol – byddwn yn aros yn eiddgar am y datblygiadau nesa!

Tipyn o gamp!
Llongyfarchiadau arbennig iawn i Alun Biffin, Parc y Fro sydd wedi sicrhau lle iddo'i hun yng Ngholeg St Anne's, Rhydychen y mis Medi yma sy'n dod. Bydd yn dilyn cwrs Ffiseg yno. Pob llwyddiant i ti Alun – a da iawn ti am wneud mor arbennig o dda hyd yma.

CAPEL SALEM
TONTEG
GWASANAETHAU CYMRAEG
DYDD SUL 9.30 - 10.30am
Y GYMDEITHAS GYMRAEG
POB NOS WENER
7.00 - 8.30pm
Cyfle i fwynhau cwmni Cymry Cymraeg.
DYDDIADAU 2006
NOSON LAWEN - GŴYL DDEWI
7.15yh ar 24/02/2006
BARBICIW 09/06/2006
TRIP 15/07/2006
DIOLCHGARWCH / CINIO FFYDD 24/09/2006
GWASANAETH NADOLIG Y DYSGWYR 13/12/2006
(02920 813662)

Anrhegion Nadolig go arbennig!
Dyna i chi drysorau bach yw'r rhain. Casi a Nel ydyn nhw – efeilliaid bach Lynfa a Scott gyrhaeddodd ar yr ail ar hugain o Ragfyr – sef pen-blwydd priodas Lynfa a Scott. Croeso i'r byd! Fydd dim prinder gwarchodwyr i ofalu am y ddwy fach yma siawns!

Ble ma' nhw nawr?
Bob yn hyn a hyn basai'n braf cael hanes rhai o'n pobl ifainc sydd bellach wedi hen adael y nyth yma'n y Creigiau a chreu bywyd cyffrous iddynt eu hunain o ran byd gwaith neu deithio. Y mis hwn dyma gip ar deulu Lyn a John Abel – sef Richard, Claire a Robert yr ieuengaf o'r tri. Yn Llundain mae Richard yn astudio am ddoethuriaeth mewn maes hynod o ddifyr sef 'osteo-archaeoleg' . Ychydig yn ôl fe'i gwahoddwyd i draddodi darlith ar ei faes astudiaeth yn Amgueddfa 'Natural History' Llundain. Lwc dda iddo yn y cymal olaf yma ac edrychwn ymlaen at ei longyfarch pan gaiff y teitl anrhydeddus – Dr Abel! Mae Claire ei chwaer allan yn Iraq ar hyn o bryd yn rhinwedd ei swydd gyda'r 'Logistic' corps. Yn ddiweddar cafodd Claire ei dyrchafu i rengoedd uwch – mae hi bellach yn 'gapten'. Ym myd y 'mechanical engineers' mae Robert – wedi ei leoli yn Paderborn yn yr Almaen, yn aelod o'r REMEs. Mae'n siwr y daw yna fwy o deithio i'w ran yntau yn y dyfodol – felly dymuniadau da i'r tri ohonoch yn eich priod feysydd.

Os carech rannu hanes aelodau o'ch teuluoedd chi ddarllenwyr – cysyllwch, os gwelwch yn dda. Chwith meddwl ein bod ni'n colli adnabod ar ein pobl ifainc oherwydd eu bod yn symud i ffwrdd.

Dr Iwan Griffiths mewn print
Llongyfarchiadau i Dr Iwan Griffiths, Parc y Bryn ar weld ffrwyth ei ymchwil mewn print! Daeth ei lyfr - 'Principles of Biomechanics and Motion Analysis' - o'r Wasg ychydig cyn y Nadolig.

Llyfr biomecaneg newydd yn dadansoddi'r ffordd yr ydym yn cerdded.

Yr Athro Phil Reed, Iwan Griffiths, Catherine a Pete yn Waterstone's

Amlygir safbwynt gwahanol ynghylch biomecaneg – gwyddor y ffordd mae pobl yn symud – yn llyfr newydd Dr Iwan Griffiths o'r Adran Gwyddor Chwaraeon ym Mhrifysgol Abertawe. Mae *Principles of Biomechanics and Motion Analysis* yn cynnig dull newydd, ymarferol o fynd i'r afael â'r pwnc drwy egluro egwyddorion mecanyddol a mathemategol gydag enghreifftiau o fywyd go-iawn. Ceisia'r llyfr, a gyhoeddwyd gan Lippincott, Williams & Wilkins, esbonio egwyddorion mecaneg a sut y cymhwysir hwy i symudiadau dynol. Nid yw'n cymryd yn ganiatol fod gan y darllenwyr ddealltwriaeth flaenorol o gineteg.

Bydd y gyfrol arloesol hon yn enwedig o werthfawr i fyfyrwyr sy'n astudio gwyddor chwaraeon, symudiadau dynol, therapi corfforol a thechnoleg chwaraeon, ac mae hefyd yn cynnig data electronig er mwyn i'r darllenwyr ymarfer dadansoddi a phrosesu mewn ffordd realistig, fodern. Mae'r llyfr newydd hefyd ar werth yn yr Unol Dalieithau, Canada, Awstralia a Seland Newydd, a mae'r cyhoeddwyr LWW wedi dweud bod hi'n anarferol iawn i gael llyfr gan awdur Prydeinig ei dderbyn i gael ei gyhoeddi yn America.

"Po fwyaf yr ydym yn gwerthfawrogi biomecaneg, y mwyaf tebygol yw hi y byddwn yn gallu gwella'r driniaeth ar gyfer namau ar y goes, sy'n effeithio ar gymaint o bobl," esboniodd Dr Griffiths, gan ychwanegu, "Os gallwn ddefnyddio dadansoddiadau symud i ddeall pam fod pobl yn dioddef o nam ar y goes, gallai ein hymchwil yn fesuradwy wella ansawdd bywyd nifer o bobl, megis pobl ddiabetig sy'n aml yn dioddef o gylchrediad gwaed gwael sy'n troi'n friw neu broblemau traed eraill."

Mae gan yr Adran Gwyddorau Chwaraeon adnoddau ymchwil o'r radd flaenaf ar gyfer astudio biomecaneg, ffisioleg ymarfer corff a dysgu sgiliau motor. Yn fwy na dim, mae gan y Labordy Dadansoddi Symudiadau systemau dadansoddi mudiant 3D a 2D sy'n galluogi ymchwilwyr i astudio symudiadau o bob ongl – sy'n hanfodol wrth astudio rhywbeth mor gymhleth â'r goes ddynol, sy'n symud yn dri dimensiwn.

I ategu'r adnoddau, ceir ystod eang o feddalwedd a chaledwedd cyfrifiadurol y gellir ei ddefnyddio i gael mynediad at berfformiadau chwarae timoedd ac athletwyr unigol. Defnyddiwyd yr offer hefyd i helpu wrth unioni problemau megis cerdded neu redeg anwastad a gallai hyd yn oed gynorthwyo'r genhedlaeth nesaf o bêl-droedwyr i gicio'r gôl gosb berffaith!

"Dangosodd ein hastudiaethau yn y Labordy Dadansoddi Symudiadau fod gan ymchwil i fiomecaneg y potensial i effeithio ar nifer o feysydd. Mae'r ffaith fod yr offer diweddaraf ar gael yma wedi bod yn amhrisiadwy i wella ein dealltwriaeth o'r pwnc, a thynnir sylw yn y llyfr hwn at nifer o astudiaethau achos o'r ymchwil arloesol a wnaed yn y Brifysgol," meddai Dr Griffiths. Galwyd peth o'r wybodaeth a gyflwynir yn y gyfrol yn barod fel 'gwaith gwreiddiol gwych' 'na ellir ei chael yn unrhyw le arall' gan arbenigwyr biomecaneg.

Yn seremoni lansio'r llyfr newydd yn Siop Waterstone's yn Abertawe yn ddiweddar, roedd yr Athro Phil Reed, Pennaeth yr Ysgol Gwyddorau Dynol, wedi llongyfarch yr awdur ar ei waith campus ar gyfer y coleg a'r adran.

Cyhoeddir *Principles of Biomechanics and Motion Analysis* gan Lippincott Williams & Wilkins. Gellir cael mwy o wybodaeth yn www.lww.co.uk neu Swyddfa Cysylltiadau Cyhoeddus Prifysgol Abertawe ar 01792 295050.

Os am
DIWNIWR PIANO
Cysyllter â
Hefin Tomos
16 Llys Teilo Sant,
Y Rhath
CAERDYDD
Ffôn: 029 20484816

Cefnogwch
Y CYMRO
Papur Cenedlaethol Cymru ers 1932.
Ffonwich Edwina 01970 615000 am fanylion tanysgrifio.



Cystadleuaeth Pêl-Droed
Aeth tîm pêl-droed yr ysgol i gystadleuaeth ysgolion De-Ddwyrain Cymru yng Ngerddi Soffia. Enillon ni un gêm, collon ni un gêm a roedd y ddwy gêm arall yn gyfartal. Cafodd pawb llawer o hwyl yn chwarae a roedd Mr Evans yn bles iawn efo ein perfformiadau. Diolch yn fawr iawn Mr Evans am ddiwrnod mor bleserus.

Cyngerdd Clic Sargent
Ar yr 17eg o Ragfyr fe aeth côr yr ysgol i berfformio yn neuadd Dewi Sant yng nghyngerdd Clic Sargent. Roedd y côr yn teimlo'n broffesiynol iawn oherwydd roedden ni'n cymryd rhan yn yr un gyngerdd â Catrin-Finch!

Roedd llawer o bobl wedi canmol ein perfformiad, ac roedd y côr wrth eu boddau hefyd yn canu ac yn helpu i godi arian at yr achos da hwn.

Y Dynion Tân yn dod i'r ysgol
Daeth dynion tân i'r ysgol i siarad â phlant Blwyddyn Pump, Pedwar a Dau. David oedd enw'r dyn tân oedd yn siarad gyda ni. Dwedodd stori am ferch o'r enw Rachel, oedd yn chwarae gyda matsys, wrth blant blwyddyn dau. Siaradodd hefyd am fod yn ddiogel gyda thân, a gofyn os oedd larwm mwg gyda pawb yn eu tai. Ar ôl gweld y dynion tân fe wnaeth Blwyddyn Dau bosteri am fod yn ddiogel gyda matsys. Dwedodd David wrth blant Blwyddyn Pump a Phedwar hefyd fod angen cael larwm mwg. Mae'r dynion tân yn gallu dod a'i gosod nhw yn eich tŷ chi am ddim. Dangosodd ef fidio i ni am fflam fach yn dechrau ac wedyn yn troi yn dân ffyrnig iawn a mwg du ymhoban. Pedair munud yn unig oedd hi'n gymryd i losgi'r ystafell i gyd! Peidiwch â chwarae gyda thân!

Mr Evans y Ffilipinas
Daeth Mr Evans o Blasmawr i'n hysgol i gynnal gwasanaeth am Ynysoedd y Ffilipinas. Mae e'n dysgu Addysg Grefyddol a Daearyddiaeth yn Ysgol Gyfun Plasmawr. Dysgon ni sut fywyd sydd gan y bobol oedd yn byw yn y Ffilipinas a pha mor wahanol ydyw i'n bywydau ni.

Hoci
I'r plant ym Mlwyddyn Chwech ar nosweithiau Llun mae hoci i bawb sydd eisiau cael tro yn chwarae'r gêm. Does neb yn gallu aros tan mae e'n dechrau ar y degfed ar hugain o Ionawr.

Trip i'r Pantomeim
Ar ôl cinio cynnar iawn, aeth yr Adran Gymraeg i gyd i weld y pantomeim, Hela'r Twrch Trwyth, yn y Miwni ym Mhontypridd. Roedd pawb ohonom yn chwerthin yn braf. Roedd nifer o'r plant sy'n arfer mynd i Ffwrnais Awen wrth eu boddau'n gweld Tara Bethan yn actio'r ferch harddaf yn y byd, sef Olwen.

Cystadleuaeth Pêl-rwyd yr Urdd
Ddydd Mawrth 24ain o Ionawr aeth tîm pêl-rwyd yr ysgol i Erddi Soffia i gymryd rhan yng ngystadleuaeth yr Urdd. Fe chwaraeon ni dair gêm gan ennill un a cholli dwy. Yn gyntaf chwaraeon ni yn erbyn Sain Ffagan ac yn anffodus collon ni 7-1. Yn ail, chwaraeon ni yn erbyn tîm pêl-rwyd Y Wern ac ennill 4-0. Yn olaf chwaraeon ni yn erbyn Llanishen Fach ac er i ni chwarae'n dda collon ni 4-1. Roedd Mrs Hussey a Mrs Morgan ein hyfforddwyr yn bles iawn efo ein perfformiad.

Canu i'r Henoed
Aeth Côr Ysgol Creigiau i ganu i'r henoed tra roedden nhw'n cael eu cinio Nadolig. Fe ganon ni rai carolau ein hunain ond roedd hi'n braf bod pawb wedi ymuno â ni i ganu'r carolau traddodiadol.

Celf
Llongyfarchiadau i Bethan Perry a Toby Duncan ar ennill cystadleuaeth Celf a chrefft a drefnwyd gan Gastell Caerdydd.

Croeso
Croeso yn ôl i Miss Roberts. Mae Dosbarth 4 a phawb arall yn falch iawn i'w gweld hi nôl. Croeso i Megan a Joshua Holland i Ddosbarth 1 a 2 – gobeithio eu bod nhw'n setlo yn dda. Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Thomas ar enedigaeth yr efeilliaid, Casi a Nel a gafodd eu geni ar yr 22 o Ragfyr. Anrheg pen blwydd priodas hyfryd iawn.

Allwch chi ddim cadw cyfrinach yng Nghymru am fwy nag wyth deg saith munud…
Ffaith?

'***Neuthon nhw astudiaeth ym Mhrifysgol Caerdydd rhyw flwyddyn yn ôl trwy ollwng sgandal fudur ofnadwy am Glenys Kinnock am un o'r gloch y pnawn yn dop Sir Fôn. Erbyn hanner'di dau oedd hi 'di cyrraedd Rhws.***'

- Alison, *Cymru Fach*.

Mewn gwlad lle na ellir cadw cyfrinachau mae'r ddrama *Cymru Fach*, gan Wiliam Owen Roberts, yn cynnig golwg feiddgar ar fywyd cyfoes Gymraeg. Yn seiliedig ar *La Ronde* gan Arthur Schnitzler, cawn ein tywys i grombil gwleidyddiaeth, y cyfryngau a masnach y Gymru gyfoes.

Caiff *Cymru Fach* ei llwyfannu yn Chapter, Treganna, rhwng 1 a 4 Mawrth, am 8.00 p.m.

TI A FI BEDDAU
Bob Bore Mercher
10.00 - 11.30a.m.
yn Festri Capel Castellau, Beddau

TI A FI TONTEG
Bob Dydd Mawrth
10 - 11.30
yn Festri Capel Salem, Tonteg

TI A FI CREIGIAU
Bore Gwener 10 - 11.30am
Neuadd y Sgowtiaid,
Y Terrace, Creigiau
Manylion: 029 20890009

CYLCH MEITHRIN CILFYNYDD
Bore Llun, Mercher a Iau
9.30-11.30
TI A FI CILFYNYDD
Dydd Gwener
9.30-11.30
Neuadd Y Gymuned,
Stryd Howell,Cilfynydd.
Manylion: Ann 07811 791597

PENTYRCH

Gohebydd Lleol: Marian Wynne

PANTO'R DWRLYN
Blwyddyn newydd a menter newydd gan Glwb y Dwrlyn sef cynnal pantomeim! Daeth torf eiddgar i Neuadd y Pentref nos Wener Ionawr 6 i fwynhau'r achlysur. Atseiniodd y neuadd gan sŵn chwerthin cyson wrth ddilyn troeon trwstan Capten Barti, ei griw trwsgwl a'i deithwyr crand. Gwelwyd doniau hen a newydd. Yn wir 'roedd yn anodd adnabod nifer o'r actorion, cystal oedd y coluro a'r gwisgoedd! Ymunodd y gynulleidfa yn hwyl ag ysbryd y perfformiad ac wrth gwrs cafwyd diweddglo hapus drwy gynnal nid un ond dwy briodas!

Noson fendigedig! Diolch i Ifan Roberts am ysgrifennu a chynhyrchu'r panto, i Capten Barti a'i griw am yr actio ysbrydoledig ac i Brian, Enid a Ray am ein diddanu yn ystod dwy egwyl. Diolch hefyd i'r Fari Lwyd am ei hymweliad. Edrychwn ymlaen at 2007 a phanto arall gobeithio!

Y FARI LWYD
Bu'r Fari Lwyd yn brysur yn perfformio eleni eto, nid yn unig yn y panto fel y crybwyllwyd uchod, ond hefyd yn Ysgol Santes Tudful ym Merthyr ac Ysgol Sant Curig yn y Bari.

YMDDEOLIAD
Dymunwn yn dda i Ken Evans ar ei ymddeoliad adeg y Nadolig ar ôl blynyddoedd yn gweithio yn Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd. Mwynha, a gobeithio bydd prydiau

bwyd arbennig yn aros am Judith bob nos!

LLONGYFARCHIADAU
Llongyfarchiadau i Don a Trish Thomas ar enedigaeth eu hwyresau, Casi a Nel, efeilliaid bach Lynfa a Scott, adeg y Nadolig. Dyna anrheg Nadolig arbennig iawn a dymunwn yn dda iddynt fel teulu.

DIOLCH
Hoffai Haulwen a Dewi Hughes ddiolch i bawb am bob caredigrwydd ac haelioni yn ystod yr wythnosau diwethaf.

GWELLHAD BUAN
Mae'n dda deall bod Bronwen Morris, Troed y Garth gartref ac yn gwella ar ôl derbyn triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar. Dymunwn adferiad buan iddi.

Dymunwn yn dda hefyd i Mrs. Richards, mam Nerys Snowball, sydd yn yr ysbyty ar ôl anffawd tra ym Mhentyrch gyda'r teulu dros y Nadolig.

CYDYMDEIMLAD
Estynnwn ein cydymdeimlad dwys i Branwen Evans, Ysgol Craig y Parc, yn dilyn marwolaeth ei mam ddechrau mis Ionawr a hynny lai na blwyddyn ar ôl colli ei thad.

MERCHED Y WAWR
Ar ôl cyfnod prysur y Nadolig beth gwell na meddwl am ymlacio a chael triniaeth aromatherapi? Dyna oedd testun cyfarfod mis Ionawr o Ferched y Wawr pan ddaeth Danny Grehan i siarad am ei waith. Cawsom hanes diddorol datblygiad aromatherapi dros y canrifoedd a chyfle i sawru arogl olew nifer o blanhigion megis lafant, myrr a rhosyn.

COED LEYLANDII
Un o bynciau'r rhaglen X-Ray yn ddiweddar oedd ein hawliau yng nghyswllt y cloddiau leylandii uchel a dyfir gan rai pobl. Daeth y rhaglen i Bentyrch i holi rhai o'r trigolion er nad oedd neb yn siwr beth oedd eu hawliau! Y cyngor oedd y dylid trafod gyda'r cymydog a cheisio ei berswadio i'w torri. Os yw'n gwrthod yna gellir mynd at yr awdurdod lleol a gofyn iddyn nhw weithredu, ond am bris wrth gwrs!

Golygfeydd o'r Panto bythgofiadwy

MENTER IAITH

ar waith yn Rhondda Cynon Taf

01443 226386

www.menteriaith.org

"EGSCLIWSIF" CHWARAE TEG!

Fel arfer byddwn yn eich gwahodd i ymuno yn ein cynlluniau chwarae hanner tymor y Gwanwyn yn yr erthygl yma ond yn anffodus nid oes modd i mi wneud hynny ar hyn o bryd. Hyd yma nid oes arian ar gael i Fenter Iaith gynnal Cynlluniau Chwarae Cymraeg felly nid oes cynlluniau chwarae Cymraeg. I'r rhai ohonoch sydd heb ystyried trefn Menter Iaith o'r blaen efallai ei fod yn syniad i mi esbonio ein bod yn Elusen Gofrestredig hollol annibynnol gyda 5 ymddiriedolwr, 5 unigolyn lleol, yn hollol gyfrifol am gyllid, arian ac unrhyw ddyledion sydd gan y Fenter. Rwyf wedi addo iddynt sawl gwaith na fydd y Fenter yn rhedeg gwasanaethau os nad oes arian, neu o leiaf gobaith rhesymol o arian, i gynnal y gwasanaethau hynny. Nid oes arian i gynnal cynlluniau chwarae Cymraeg felly nid oes cynlluniau chwarae Cymraeg.

Ydych chi eisiau gwybod pam nad oes arian ar gael? Rydym wedi gofyn i Gyngor Rhondda Cynon Taf sawl gwaith pam nad oes arian i ni eleni. Mae'n wir ein bod wedi cael £500 at gynnal cynllun chwarae hanner tymor yr Haf yn ystod 2005 ond dim un geiniog at gynlluniau'r Haf nac ychwaith cynlluniau hanner tymor yr Hydref. Mae hyn yn rhyfedd wrth feddwl ein bod wedi cael miloedd i gynnal y gwasanaethau hyn yn y gorffennol. Mae e hyd yn oed yn fwy rhyfedd pan dych chi'n ystyried bod y gronfa "Cymorth" yn Rhondda Cynon Taf wedi derbyn £1.2miliwn ychwanegol gan y Cynulliad eleni. Ers blynyddoedd mae staff Rhondda Cynon Taf wedi mynnu bod canllawiau'r Cynulliad yn golygu taw dim ond cynlluniau chwarae "agored" oedd yn gymwys i gael arian. Mae'r Cynulliad wedi dweud troeon nad yw hynny yn wir ac erbyn hyn y mae staff Rhondda Cynon Taf wedi rhoi'r gorau i'r esgus hwnnw. Yn anffodus nid ydym wedi derbyn ymddiheuriad am eu hymddygiad nac ychwaith ceiniog o'r miloedd roeddynt wedi cadw allan o'r gwasanaethau.

Yn y gwaith rydych yn gorfod gweithio gyda phobl a dibynnu arnynt am gefnogaeth a chydweithrediad. Nid ydym wedi derbyn hyn gan staff Rhondda Cynon Taf yn y cyd-destun yma. Yn wir y maent wedi dweud droeon nad ydynt yn fodlon ariannu gwasanaethau Cymraeg oherwydd eu bod nhw'n ystyried y gwasanaethau hynny i fod yn "egscliwsif" yn yr ystyr nad ydynt yn agored i holl blant yr ardal. Trafodwyd y sylwadau hyn gyda Mr Dewi Jones cyn gyfarwyddwr addysg Rhondda Cynon Taf a chyn "Champion" yr iaith Gymraeg, ond yn anffodus, fe ddaeth ei yrfa gyda'r Cyngor i ben yn fuan iawn wedyn. Nid oes "Champion" newydd wedi ei benodi ac nid yw'r pwyllgor sy'n gofalu am y Gymraeg wedi cyfarfod ers misoedd lawer. Nid oedd staff presennol nac ychwaith gwleidyddion Rhondda Cynon Taf wedi cymryd y sylwadau o ddifrif hyd yma ond rydym yn siarad o hyd.

JANE DAVIDSON, LEANNE WOOD AC OWEN JOHN THOMAS YN GWRANDO

Rydym wedi cyfarfod hefyd â'r gweinidog sy'n gyfrifol am addysg sef Jane Davidson ac roedd hi'n siomedig iawn i glywed "egscliwsif" yn y cyd-destun yma gan nodi nad oedd yn air y byddai hi'n defnyddio nac ychwaith yn hoffi clywed pobl eraill yn ei ddefnyddio. Mae swyddogion y cynulliad yn ymwybodol iawn o'r camarwain cyson sydd wedi digwydd. Maen nhw wedi cadarnhau nad oedd unrhyw beth yn ein canllawiau yn rhwystro Rhondda Cynon Taf rhag cefnogi ein cynlluniau ac yn methu deall pam eu bod yn mynnu dweud hynny. Mae'r swyddogion hyn yn sefydlu grŵp penodol i ystyried gwasanaethau cyfrwng Cymraeg, clustnodi elfen bwrpasol o'r grantiau mawr mae'r cynulliad yn rhoi i gynghorau sir at wasanaethau Cymraeg yn unig a sicrhau cefnogaeth barhaol at glybiau ar ôl ysgol yn hytrach nac arian cychwynnol yn unig. Byddai'r rhain yn newidiadau polisi sylweddol er lles y Gymraeg a chlybiau ar ôl ysgol yn gyffredinol.

Nid ydym wedi cysylltu na chyfarfod ag Owen John Thomas, Llefarydd Plaid Cymru ar yr iaith Gymraeg ond y mae fe a Leanne Wood wedi dangos diddordeb byw yn ein problemau ac wedi treulio oriau ar y ffon gyda swyddogion Cyngor Rhondda Cynon Taf ac rydym yn ddiolchgar iawn iddynt am eu hymdrechion.

BBC CYMRU YMA I NI

Bu ymweliad cyntaf y BBC a Chanolfan Hamdden Michael Sobell, Aberdar, yn



llwyddiannus iawn gyda dros 4,000 o bobl yn ymweld â'r ganolfan i ddarllen y newyddion, cyflwyno'r tywydd, rhoi sylwebaeth ar gôliau gwych Tîm Pêl-droed Caerdydd (doedd dim gôliau i'w cael gan Abertawe!), gweld Tardis Dr. Pwy, gwrando ar aelodau o gerddorfa symffoni'r BBC a bandiau ifanc lleol a llawer iawn mwy. Dewch i weld Jonsi ar 14/02/06 yn yr Amgueddfa, Y Talwrn yn Mount Pleasant, Sian Thomas ar 15/02/06 yng Nghanolfan Aman, Hywel a Nia ar 16/03/06 tu allan i'r farchnad a Phawb a'i Farn yn nôl yng Nghanolfan Michael Sobell. Yn bennaf oll dewch i'r Diwrnod Dysgwyr ar 25/02/06 eto yng Nghanolfan Aman lle bydd Derek Brockway, Hywel Gwynfryn, Nia Roberts, Dafydd Du a Nushin Chavoshir-Nejad yno i'ch diddanu chi yn y Gymraeg yn ogystal ag ychydig o wersi canu Mae Hen Wlad Fy Nhadau.

HYRWYDDO ADDYSG GYMRAEG

Fel rhan o ymdrechion Bwrdd yr Iaith rydym yn hyrwyddo addysg Gymraeg yn ystod mis Chwefror yn ardaloedd Llantrisant ac Abercynon. Mae'n bosib y bydd rhaglen Pawb a'i Farn yn trafod hyn ar 16/03/06 yn Aberdâr. Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr yn llawn iawn. Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Abercynon yn llawn iawn ac y mae galw am Ysgol Gynradd Gymraeg newydd yn ardal Aberpennar. Byddai, byddai ysgol gyfan yn well nac uned. Ymddengys bod hyd at 60 o blant Cymraeg heb ysgol am fis Medi 2006 a gwir angen datblygu addysg Gymraeg yn yr ardal. Bydd staff y Fenter a Mudiadau eraill megis Twf a Mudiad Ysgolion Meithrin wedi dosbarthu miloedd o bamffledi yn hyrwyddo addysg Gymraeg y tu allan i Tesco Aberdâr a Llantrisant, cynnal Jamboris gyda Martyn Geraint yn y ddau le gyda phlant lleol ac ysgol trafodaeth ar ddatblygiad addysg Gymraeg o fewn Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar yn eu cyfarfod nhw y mis yma. Mae hyn yn bwysig os oes twf i fod yn

⇒

Menter Iaith

y Gymraeg y mae rhaid i ni weld mwy o blant mewn addysg Gymraeg felly siaradwch â'ch cymdogion, siaradwch â'ch ysgolion lleol, dosbarthwch daflenni ar eu rhan nhw a gwnewch yn siŵr bod pob ysgol Gymraeg yn llawn iawn a mwy ar y ffordd.

APÊL DYDD GŴYL DEWI

Ydyn. Rydym yn gofyn am eich arian unwaith eto - y mae'n amser i ni ddechrau ar ein hapêl Dydd Gŵyl Dewi. Codwyd rhai cannoedd o bunnoedd llynedd wrth i bobl ddanfon cyfraniadau atom. Rydym yn ddiolchgar iawn am bob ceiniog rydych yn danfon i mewn ond os oes modd i chi godi ffurflen gyfrannu reolaidd dyna'r ffordd orau i roi arian i ni oherwydd bod cyfraniad rheolaidd yn haws, yn well, yn fwy ac yn caniatáu i ni hawlio 25% treth yn ôl ar eich cyfraniad. Mae ffurflenni banc ar gael ar ein gwefan ar www.menteriaith.org ac y mae croeso i chi godi ffurflen o'r fan honno neu os oes cerdyn credyd gyda chi cewch wneud cyfraniad nawr dros y ffôn trwy ffonio 01443 226386. Os ydych yn mynd at ein gwefan fe welwch fod cyfle i wneud eich siopa gan elwa o ddisgownt mawr gan nifer o siopau'r stryd fawr a fydda yn gwneud cyfraniad i ni ar sail yr hyn rydych yn prynu - ewch i siopa at www.menteriaith.org

CAU EIN GWASANAETHAU PLANT

Mae ein cynlluniau chwarae ar gau. Mae 6 clwb carco ar gau ers dechrau mis Ionawr ac y mae'n bosib iawn y bydd mwy o glybiau yn cau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Os ydych chi eisiau newid hyn y mae rhaid i chi wneud rhywbeth.

Steffan Webb
Prifweithredwr

TONTEG A PHENTRE'R EGLWYS

Gohebydd Lleol: Sylfia Fisher

Babi Newydd

Mae hi wedi bod yn flwyddyn newydd dda yn barod i un teulu yn yr ardal. Roedd pawb wrth eu bodd pan gyrhaeddodd Mali Fflur, merch fach Steffan ac Angharad Williams ar Ionawr 12fed. Llongyfarchiadau mawr i chi. Mae Mamgu a Tadcu Tonteg (John ac Elaine James) a Nain yr Wyddgrug wedi gwirioni'n lan!

Cymdeithas Gymraeg Capel Salem

Bydd y gymdeithas yn cwrdd yn y Draenog ar y 10 fed o Chwefror ar gyfer cinio Nadolig hwyr. Bydd pawb wedi cael cyfle i ddod dros yr holl dwrci erbyn hynny !

Ar Chwefror 29ain cynhelir Noson Lawen - cofiwch ei nodi yn eich dyddiadur.

Gohebydd Newydd

Diolch yn fawr iawn i Sylfia Fisher sy'n cymryd drosodd fel gohebydd yr ardal.

Diolch hefyd i Mima Morse sydd wedi'n cadw mewn cysylltiad â'r ardal ac ag ardal Llangeithio dros y blynyddoedd diwethaf. Gobeithio y byddwn yn parhau i glywed o gefn gwlad Ceredigion.

Mali Fflur

Cyfieithu ar y pryd

Ydych chi'n gallu siarad Cymraeg? Ydych chi'n aelod o grŵp cymunedol / gwirfoddol neu ysgol?

Hoffech chi ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd ond nad ydych am wneud oherwydd diffyg hyfforddiant?

Dyma'r cyfle i chi ennill y sgiliau!!

Bydd Menter Iaith Rhondda Cynon Taf yn rhedeg cwrs cyflwyniad i gyfieithu ar y pryd.

CWRS CYFIEITHU AR Y PRYD
Gydag ELIN TUDUR BA, Caerdydd
Ym Mhrifysgol Morgannwg Trefforest, Pontypridd
7.00 – 9.00 BOB NOS LUN 27ain CHWEFROR 2006 tan 27ain MAWRTH 2006
Cost: £25 i Wirfoddolwyr Cymunedol

Os oes diddordeb gennych ffoniwch Rhian Powell ar 01685 877183

Menter Iaith

Cinio Gŵyl Dewi yng Nghlwb Golff Aberdar

7.30, Nos Wener, 3ydd Fawrth
Ffoniwch Rhian neu Leah i drefnu lle. 01685 877183.

Am wybodaeth bellach ffoniwch Swyddfa Menter Iaith Rhondda Cynon Taf Aberdar 01685 877183.

Fforwm Mudiadau Gwirfoddol Cymraeg

ARIANNU EICH PROSIECT CYMUNEDOL

1.30, Dydd Iau
2 Chwefror 2006
yn Swyddfeydd Interlink, Pontypridd
Ffoniwch: 01685 877183 am wybodaeth bellach

Menter Iaith

Diwrnod i'r Dysgwyr

- wedi ei drefnu mewn partneriaeth â'r BBC
DYDD SADWRN
25 CHWEFROR
9.30 o'r gloch
yng Nghanolfan Aman, Cwmaman Aberdar.
Manylion pellach ffoniwch Rhian neu Leah 01685 877183.

FFYNNON TAF NANTGARW A GWAELOD Y GARTH

Gohebydd Lleol: Martin Huws

LLOFRUDD:
'DIM RHYDDHAU'

Dyfarnodd barnwr Uchel Lys fod rhaid i ddyn o Ffynnon Taf dreulio o leia 20 mlynedd yn y carchar.

Dywedodd yr Arglwyddes Ustus Hallett ei bod yn amau a fyddai Mark Hampson, 37 oed a llofrudd Geraldine Palk, yn cael ei ryddhau. Cipiodd y fenyw 26 oed, ei threisio cyn ei thrywanu 81 o weithiau a gadael ei chorff mewn nant.

Yr Arglwyddes Ustus Hallett oedd y barnwr yn yr achos gwreiddiol yn Llys y Goron Bryste yn 2002 a dywedodd mai rhyw oedd achos y llofruddiaeth "sadistaidd a ysgydwodd gymuned".

"Ni ddangosodd unrhyw emosiwn yn ystod yr achos," meddai.

DATRYS DIRGELWCH Y BONT

Mae cais i Gyngor Caerdydd o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn dangos pam y cafodd Pont Sion Philip ar waelod y llwybr igam-ogam ei chau ar frys.

Ar Dachwedd 25 ysgrifennodd y Cynghorydd Christine Priday at swyddogion y cyngor am "ei fod yn ymddangos fod piler wedi ei olchi i'r afon ar ôl glaw trwm". Dywedodd "ei fod yn ymddangos nad oedd y piler yn atal llif yr afon" ond ei bod hi'n "poeni fod y cwymp yn golygu nad oedd y bont yn saff".

Daeth rhybudd cau yn sôn am y "tebygrwydd o berygl i'r cyhoedd" i rym yr un diwrnod.

Ar Ragfyr 5 ysgrifennodd Tony Williams o'r Adran Briffyrdd at y cynghorydd. Dywedodd fod deifwyr wedi cadarnhau "nad oedd seiliau'r bont wedi eu tanseilio" ond bod "cwymp amddiffynfa'n golygu y gallai sbwriel yr afon ddifrodi'r piler os oedd llif yr afon yn uchel".

Dywedodd y byddai'r bont ar gau nes bod system amddiffyn newydd mewn lle. Cafodd y bont ei hailagor ar Ragfyr 14.

DOLUR I'R GLUST?

Yn y bore rwy'n hoff o droi o Radio Cymru i sianeli eraill ac yn ôl er mwyn darganfod pa stori sy'n amlwg a beth yw trefn eitemau bwletin. Weithiau mae'r gwahaniaeth yn fawr.

Un bore fe ges i sioc ond nid oedd yn hollol annisgwyl. Gwaetha'r modd. Roedd stori am yr adroddiad gafodd ei lunio oherwydd yr hyn wnaeth cyn-athro drama o Ysgol Gyfun Rhydfelen.

O'r gorau, roedd yn fore, yn saith o'r gloch. Ond eto ... Swniai'r gair unsill *Clywch* fel rhywun yn clirio ei lwnc.

Yr un wythnos, yr un amser o'r bore, a stori am y gorchymyn i ferwi dŵr yng Ngwynedd a Môn. Y tro hwn gair deusill oedd yr her. Do'n i ddim yn siŵr beth i' 'neud, chwerthin neu lefen. Swniai *Llyn Cwellyn* fel dyn yn swilo ei geg ar ôl brwsio ei ddannedd.

TORRI GORCHYMYN: CARCHAR

Carcharwyd dyn o Ffynnon Taf a aeth â'i gi am dro ger man lle oedd plant yn chwarae. Hwn oedd yr ail dro i David Williams, 58 oed o Lys Hafan, dorri gorchymyn perygl-o-niwed-rhywiol, gorchymyn oedd yn golygu na ddylai fynd o fewn 50 metr i ysgol, pwll nofio neu barc lle roedd plant yn chwarae.

Cafodd flwyddyn o garchar. Clywodd Llys y Goron Merthyr Tudful iddo yrru i Barc Gwledig Dâr, Aberdâr, ar Hydref 13 a dywedodd Sarah Water, ar ran yr amddiffyn, iddo fynd â'i wraig i'r parc am awyr iach am ei bod yn gwella ar ôl y ffliw.

"Dyw e ddim yn barc ar gyfer plant yn benodol a meddyliai y byddai'n iawn iddo fynd â'r ci am dro."

Dywedodd y Barnwr John Curran ei fod yn carcharu Williams "er lles y cyhoedd". "Aethoch chi mewn i barc cyhoeddus yn fwriadol ac i mewn i fan lle roedd plant yn chwarae. Dydw i ddim yn derbyn mai'r rheswm oedd mynd â'r ci am dro."

ARWYDD O EWYLLYS DA

Er bod Ysgol Nantgarw mewn perygl o gau, cafodd y plant newyddion calonogol yn ddiweddar.

Gadawodd Alf Evans, oedd yn byw mewn bwthyn y drws nesa i'r ysgol, £1,000 yn ei ewyllys i'r ysgol a bu'r plant wrth eu bodd ar daith ar Reilffordd Mynyddig Aberhonddu lle cwrddon nhw â Sion Corn.

Bydd gweddill yr arian yn cael ei wario ar fainc er cof am Alf.

MARWOLAETH SYDYN

Bu farw Brynmor Jones neu Jobby fel yr oedd pawb yn ei adnabod yn yr ardal, yn sydyn yn 79 oed.

Yn y Garth, Maesteg, yr oedd yn byw ond cafodd ei godi yn Moy Road, Ffynnon Taf, ac yn yr Ail Ryfel Byd bu'n aelod o Gorfflu Hyfforddi'r Awyrlu cyn chwarae i'r tîm rygbi lleol. Cafodd ei hyfforddi i fod yn blymer ac fe osododd y cawodydd yn y stafell wisgo oedd ar y pryd tu ôl i Westy'r Castell yn Heol Caerdydd.

Newidiodd gyfeiriad. Daeth yn blisman a gwasanaethu yng Nghaerffili a Senghennydd.

Cydymdeimlwn â'i wraig Eileen sy'n byw yn Nhongwynlais, ei fab Michael, cyn-blisman arall, a'i frawd-yng-nghyfraith Derrick Jenkins sy'n byw yn Nhŷ Rhiw.

CODI CALON?

Ar adeg pan mae lefelau had dynion yn gostwng, yn gyffredinol, rwy'n cenfigennu at ddoniau Gwyddel o'r bumed ganrif. Ei enw yw Niall Naw Gwystl.

Mae academyddion Coleg y Drindod yn Nulyn wedi ymchwilio i DNA 800 o ddynion y Weriniaeth cyn casglu fod un Gwyddel ymhob 12 yn perthyn i Niall. Hynny yw tair miliwn o Wyddelod drwy'r byd. Y Gwyddel mwya ffrwythlon erioed.

"Sdim amheuaeth," medd y Doctor Dan Bradley o'r coleg "fod hwn yn profi fod cysylltiad rhwng ffrwythlondeb a grym."

Ond ... Hanner munud. Fel y dywedodd y colofnydd Craig Brown yn y *Times*, roedd Iŵl Cesar,

⇒

YSGOL PONT SIÔN NORTON

Genedigaeth
Llongyfarchiadau i dair aelod o staff yr ysgol ar enedigaeth eu plentyn cyntaf. I Lowri a Rob Harris ganwyd mab bach - Ioan Evan, i Samantha a Simon Cook ganwyd merch - Niamh Olivia ac i Angharad a Steffan Williams ganwyd merch fach - Mali Fflur. Dymuniadau gorau i'r tri theulu.

Coleg UWIC
Croesawn Kate Frowen i'r ysgol fel myfyrwraig ar ei blwyddyn olaf yng Ngholeg UWIC. Mae Kate yn dysgu Blwyddyn 6 yn yr ysgol yn ystod ei chyfnod hyfforddi yn ein plith.

Ffynnon Taf a Nantgarw

Frenhines Elisabeth (yr un gynta) ac Adolf Hitler yn ddi-blant.

Felly oes bwlch yn y theori? Neu, a bod yn blwmp ac yn blaen, odi'r academyddion wedi tanio cetrisen wag?

DIGWYDDIADAU

CAPEL BETHLEHEM, Gwaelod-y-garth, 10.30am. Chwefror 5: Y Gweinidog, Oedfa Gymun; Chwefror 12: Y Parchedig Dafydd Edwards; Chwefror 19: Y Gweinidog; Chwefror 26: Y Parchedig Haydn Thomas.

CYLCH MEITHRIN Ffynnon Taf, 9.30-12, dydd Llun tan ddydd Gwener. Taliadau: £4.75 y sesiwn. Ti a Fi, 1.15-2.30 bob dydd Mawrth. Taliadau: £1.50 y sesiwn.

CYMDEITHAS ARDDWROL Ffynnon Taf a'r Cylch: ddydd Mawrth cynta'r mis, Clwb Cyn-Aelodau'r Lluoedd Arfog, Glan-y-Llyn. Manylion oddi wrth Mrs Toghill, 029 20 810241.

GWERSI CYMRAEG, Llyfrgell Ffynnon Taf, nos Lun, 6.30-8.30.

Chwaraeon
Fe chwaraeodd tîm rygbi'r ysgol gêm goffa *'Leigh Symons Shield and Cup Memorial Fund'* yn Ynysybwl yn erbyn Ysgol Coedpenmaen. Llongyfarchiadau i'r bechgyn am ennill o 4 cais i 3. Paratowyd lluniaeth ar gyfer y ddau dîm yng Nghlwb Rygbi Ynysybwl ar ôl y gêm a derbyniodd yr ysgol swm o arian ar gyfer prynu adnoddau chwaraeon.

Chwaraeodd y tîm yn erbyn Ysgol Castellau yn y gêm gwpan ac fe enillon nhw o 3 cais i ddau. Mae'r tîm nawr yn y rownd gynderfynol. Llongyfarchiadau fechgyn.

Mae aelod o dîm Gleision Caerdydd yn ymweld â'r ysgol bob bore dydd Mercher i ddysgu sgiliau rygbi i ddisgyblion blwyddyn 5 a 6.

Hefyd mae dau gyn-ddisgybl o'r ysgol, Ross a Ryan, yn cymryd clwb pêl-droed bob nos Fawrth.

Pêl-rwyd
Coedpenmaen 9 Pont Siôn Norton 3
Gwell lwc y tro nesaf ferched.

Clybiau
Fe fydd clwb golff yn dechrau yn yr ysgol yr wythnos nesaf a hefyd clwb beicio i'r plant ifancaf yn ystod yr awr ginio.

Ymwelwyr
Croesawyd PC Siân Jones i siarad gyda disgyblion Cyfnod Allweddol 2 am fwlian a dieithriaid.

Mae'r ysgol hefyd yn rhan o brosiect gwrth gyffuriau "Get Started". Mae hwn yn rhan bwysig o'u haddysg bersonol a chymdeithasol.

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH
BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD
Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
I'R CYHOEDDIAD HWN
www.bwrdd-yr-iaith.org

GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol: Betsi Griffiths

YN GWELLA
Mae'n dda i weld fod Miss Mair Thomas yn gwella wedi ei salwch cyn y Nadolig. Pan fo'r tywydd yn caniatáu mae'n braf i'w gweld yn mynd am dro ar hyd y stryd. Parhewch i wella Mair a gobeithio y byddwch nôl i arfer cyn bo hir.
Dymuniadau gorau am wellhad buan i Mr Bil Phillips cyn Brifathro Ysgol Abercerdin sydd wedi bod yn sâl ers cyn y Nadolig. Gobeithio y bydd nol wrth ei weithgareddau yn y Gymuned cyn bo hir.

LLWYBRAU
Cynhaliwyd cyfarfod yn ddiweddar i drafod cyflwr y llwybrau yn y cwm. Crëwyd llawer o lwybrau dan gynllun Adfer y Cwm yn y saithdegau, ond mae'r llwybrau wedi dirywio ac mae angen gwaith i'w hadfer. Mae glaw trwm yr hydref a'r beiciau modur wedi gwneud difrod mawr ond mae gobaith y gwneir rhywbeth i'w gwella cyn bo hir.

CANOLFAN HAMDDEN HENDREFORGAN
Mae'r gwaith wedi dechrau ar adeiladu rhan tri yr adeilad. Pan fydd yr estyniad wedi gorffen bydd mwy o gyfleusterau ar gyfer yr ifanc a chyrsiau ar gyfer yr oedolion.

Mae oriau'r Caffi Cymunedol wedi ymestyn ac yn awr fe fydd brecwast ar gael.

Bydd Cynllun Chwarae ar gyfer y plant yn ystod wythnos Hanner Tymor.

ARDDANGOSFA DIOGELWCH
Bydd Arddangosfa Diogelwch yn y Cartref a Diogelwch Personol Dydd Sadwrn Chwefror 4ydd o 10 o'r gloch tan 3 o'r gloch ar gyfer pawb o bob oed yn Neuadd yr Henoed. Croeso cynnes i bawb.

www.mentercaerdydd.org
029 20565658

Lleoliad Newydd Cynllun Gofal: Ysgol Melin Gruffydd, Yr Eglwys Newydd

Fe fydd Cynllun Gofal y Fenter yn cael ei gynnal yn ystod Hanner Tymor mis Chwefror (dydd Llun 24 Chwefror – dydd Gwener 28 Chwefror).

Mae'r Cynlluniau'n cael eu cynnal mewn tri safle – Ysgol Treganna (Gorllewin Caerdydd), Ysgol y Berllan Deg (Dwyrain Caerdydd) ac Ysgol Melin Gruffydd (Gogledd Caerdydd).

Croeso i blant mewn ysgolion Cymraeg o ddosbarth derbyn hyd at Flwyddyn 6. Cost dyddiol o £14.50 y plentyn. **Dyddiad cau i gofrestru: Dydd Gwener, 15 Chwefror.** Mae lle i nifer cyfyngedig o blant, felly cofrestrwch yn gynnar rhag cael eich siomi.

Am fanylion pellach neu ffurflen gais ffoniwch y swyddfa ar 029 20565658 neu e-bostiwch rachaelevans@mentercaerdydd.org

Dathlu Dydd Gŵyl Dewi

Unwaith eto eleni, mae'r Fenter yn trefnu noson Cawl a Chân i ddathlu Gŵyl Dewi yn nhafarn y Mochyn Du.

Fe fydd cawl yn cael ei weini ac adloniant yn dechrau o 8yh ymlaen. Mynediad yn rhad ac am ddim. Croeso cynnes i bawb!

Clwb Dringo Menter Caerdydd

Mae clwb newydd sbon wedi dechrau - Clwb Dringo. Mae'r Clwb i blant Blwyddyn 5, 6, 7 ac 8 acyn cyfarfod bob nos Iau yn Ysgol Plasmawr.

MIRI MEITHRIN

Yn dilyn llwyddiant Miri Meithrin fis Hydref diwethaf, mae'r Fenter yn cynnal dwy sesiwn arall yn ystod hanner tymor fis Chwefror. Fe fydd y sesiynau yn cael eu cynnal yng Nghanolfan Gymunedol Maes y Coed, Y Waun, ddydd Llun, 20 Chwefror a dydd Gwener, 24 Chwefror. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Rachael Evans ar rachaelevans@mentercaerdydd.org

Posteri Dathlu Dydd Gŵyl Dewi

Mae Cyngor Caerdydd yn paratoi posteri Gŵyl Dewi eleni i'w dosbarthu i holl siopau a thafarndai Caerdydd. Os ydych am dderbyn poster Gŵyl Dewi yn rhad ac am ddim i arddangos yn ffenestri'r tŷ – cysylltwch â ni yn y Fenter. Yn ogytal â'r posteri fe fydd y Cyngor yn darparu cennin Pedr i ymwelwyr i Gaerdydd yn yr orsaf drenau ac yn y maes awyr yn ystod y bore. Fe fydd stondin ac adloniant yng nghanol y ddinas rhwng 11yb a 3yp.

DEDDF IAITH NEWYDD:
200 yn mynychu Rali Calan

Daeth dau gant o aelodau Cymdeithas yr Iaith Gymraeg i Rali Calan y mudiad a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ar 6 Ionawr. Yn y rali datganodd Steffan Webb, Prif Weithredwr Menter Iaith Rhondda Cynon Taf, ei gefnogaeth i Ddeddf Iaith Newydd.

Yna dan arweiniad Catrin Dafydd, arweinydd Ymgyrch Deddf Iaith y Gymdeithas, gorymdeithiodd dau gant o ymgyrchwyr ar hyd Heol y Frenhines, Caerdydd gan dargedu siopau Orange, Woolwich, Dixons a Starbucks (ymysg eraill) â sticeri gludiog yn galw am Ddeddf Iaith. Addawodd rheolwyr y siopau hyn gyfarfod dirprwyaeth o'r Gymdeithas i drafod polisïau iaith eu cwmnïau.



Ffônlyfr 2006

* Plymwyr * Trydanwyr * Cyfrifwyr
* Garddwyr * Adeiladwyr * Mecanics
* Doctoriaid * Gwarchodwyr plant
* Gwerthwyr Tai * Dylunwyr
*Trin Gwallt * Deintyddion …

Mae Menter Caerdydd wrthi'n cynhyrchu Ffônlyfr 2006 a fydd yn cynnwys rhifau ffôn busnesau/darparwyr/arbenigwyr sy'n cynnig gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghaerdydd.

Os ydych yn cynnig neu yn derbyn gwasanaeth trwy'r Gymraeg, cysylltwch ag Owain Llwyd ar 20 56 56 58, neu ar e-bost: owainllwyd@mentercaerdydd.org

TONYREFAIL

Gohebydd Lleol: D.J. Davies

Miss Jean Thomas gyda Adrian

PENBLWYDD YN 90 oed.
Llongyfarchiadau mawr i Miss Jean Thomas (Jean Bwtsher) Maes y Ffynnon Heol Uchaf Tonyrefail ar gyrraedd ei 90 oed ar yr 16eg o Ragfyr 2005. Ar y diwrnod, bu'n brysur iawn yn Maesyffynnon pryd y bu mynd a dod drwy'r dydd gan deulu a ffrindiau. Roedd wedi cael toreth o flodau a chardiau, ac roedd digon o fwyd at ddant pawb, a chacen mewn dull het felen a fyddai wedi bod yn addas ar ddydd Cymanfa.

Cigyddion oedd ei theulu a'r siop yn ymyl Clwb Rygbi Ton a bu Jean a'i unig chwaer, y ddiweddar Enid, yn cadw'r busnes i fynd tan ryw bymtheg mlynedd yn ôl. Collwyd Enid ym mis Mehefin 1995. Roedd gan Enid ddau o blant sef Adrian a Susan sydd yn gofalu am Jean a bu'n treulio'r Nadolig diwethaf gyda Susan ai chymar ym Mhrestatyn.

Mae Adrian yn byw yn Swydd Rhydychen ac roedd e yno ar y dydd arbennig.

Bu Jean yn aelod ffyddlon gydol ei hoes yng Nghapel y Ton hyd ei gau dair blynedd yn ôl.

Pob bendith iddi yn y dyfodol a'i theulu.

Cylch Meithrin Tretomos

CINIO BETHLEHEM.
Ar nos Lun y 16eg o Ionawr daeth cynulliad luosog i'r Capel i gyd fwyta. Mae wedi bod yn achos blynyddol bellach o'i gael yn Ionawr er mwyn osgoi bwrlwm yr ŵyl a chael parhad a chofio cyffro'r Nadolig. Roedd y gweinidog y Parchedig Philip Lewis, a'i gymar Elisabeth a'i merch, Anna, yn gofalu amdanom. Mae Anna yn ddisgybl yn y Meithrin Thomastown a bydd yn dair oed ar ddydd Gŵyl Santes Dwynwen. Ei henw llawn felly yw Anna Dwynwen Elisabeth Lewis. Mae Mrs Janet Richards wedi bod yn gofalu am y Meithrin ers tipyn bellach ag yn haeddu y ganmoliaeth uchaf. Diolch Jan a phob bendith yn y gwaith.

MARWOLAETH.
Ar noswyl Nadolig daeth y newydd trist am farwolaeth Mrs Iris Llewelyn Hon L.C.M., yn 92 oed. Priod y diweddar Emlyn a fu farw 18fed o Awst 1995 gartref yn 51 Heol Uchaf Tonyrefail nepell o Faesyffynnon. Un o bobl amlwg y Ton, roedd wedi bod yn athrawes piano ac wedi dysgu cannoedd o blant a rhai hŷn hefyd.

Mrs Iris Llewelyn

Brodor o Gilfach Goch oedd Iris ac yn un o blant Calfaria Eglwys y Bedyddwyr yn y Gilfach, a chyn iddi briodi bu'n organydd yn Sant Barnabas Gilfach Goch am lawer o flynyddoedd. Daeth i'r Ton ar ôl iddi briodi ag Emlyn, a daeth yn aelod ffyddlon yn Ainon ac yn organydd tan i'r achos gau rai blynyddoedd yn ôl.

Ganwyd iddynt un plentyn sef David sy'n briod â Lilwen, brodor o Faesteg. Cyfarfu'r ddau yn y Coleg. Maent yn byw yn swydd Surrey a chanddynt ddau o blant. Mae Gareth yn briod a Kirsty ac mae ganddynt faban naw mis oed, Rhys, ac mae'n nhw'n byw yn y tai newydd ar safle ysbyty Rhydlafar, a Sarah a briododd â Stephen fis Medi diwetha. Mae yna un bwysig arall yn y teulu sef Modryb Marion chwaer i'r diweddar Emlyn a mawr yw'r gofal amdani gan y teulu.

Bu'r angladd brynhawn Mercher y 4ydd o Ionawr y flwyddyn newydd. Gwasanaethwyd gan Esgob Llandaf Y gwir Barchedig David Yeoman brodor o Donyrefail a ffrind mynwesol i'r Teulu. Coffa da amdani.

Tafod Elái yn dathlu 20 mlynedd eleni
Cofiwch archebu eich copi
£6 am y flwyddyn

YSGOL GARTH OLWG

Cyngor Ysgol
Dydd Gwener, y trydydd ar ddeg o Ionawr, cynhaliwyd etholiad pwysig iawn yng Ngarth Olwg - ethol disgyblion i fod yn aelodau o gyngor plant Garth Olwg.

Cafodd y disgyblion wythnos i gynllunio posteri gwych ac i greu maniffesto pwysig, a gwnaeth blwyddyn 5/6 gyflwyniad amlgyfrwng hyd yn oed! Roedd hi'n gystadleuaeth agos iawn, dim ond ambell bleidlais oedd ynddi mewn sawl dosbarth.

Ar ddiwedd y dydd, cawsom wybod pwy oedd yn fuddugol. Felly, dyma'r plant sydd ar gyngor ysgol Garth Olwg - Danielle Richardson, Rhys John, Owen Griffiths, Anna Passfield, Eleri Roberts, James Christopher, Eli Carter, Heulyn Welsby, Amy Outing, Carwyn Roberts, Carys Raison, Calum Sheeley. Llongyfarchiadau iddyn nhw! Pwy a wyr, efallai y gwelwn ni nhw yn Nhŷ'r Cyffredin rhyw ddiwrnod!

Carys Raison a
Calum Sheeley. Bl 6.

Pêl-Rwyd
Yn eu gêm gyntaf eleni enillodd y tîm pêl-rwyd yn erbyn ysgol Castellau. Roedd yn gyfle da i'r ddau dîm cael chwarae cyn cystadleuaeth yr Urdd.

Ymweliad
Ar Ionawr 11, daeth y Parchedig Peter Cutts i siarad â phlant blwyddyn 2. Roedd e'n siarad am ei waith yn y capel ac yn y gymuned. Fe gafodd y plant gyfle i ofyn llawer o gwestiynau iddo. Mwynheuodd y plant yn fawr iawn - diolch yn fawr Mr Cutts.

Chwaraeon
Y pumed o Ionawr, fe fuodd rhai o blant hyna'r ysgol yng nghanolfan hamdden Llanilltud Faerdref yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth athletau dan do. Daethom yn ail yn y gystadleuaeth ac roedd pawb wedi mwynhau'r gweithgareddau yn fawr iawn.

Y Panto
Ddydd Iau y pedwerydd ar bymtheg o Ionawr aeth adran Iau ysgol Garth Olwg i theatr y Miwni ym Mhontypridd. Roeddent wrth eu bodd yn gwylio'r Pantomeim oedd yn seiliedig ar y chwedl Culhwch ag Olwen

Y Delyn
Bu Glenda Clwyd yn diddanu disgyblion Garth Olwg ar brynhawn Ddydd Mawrth 10fed o Ionawr. Cafwyd perfformiad hudolus ar y delyn gyda cherddoriaeth o Gymru a cherddoriaeth glasurol o gwmpas y byd. Canodd Glenda amrywiaeth o ganeuon gwerin Cymraeg wrth gyfeilio ar delyn oedd yn dri chan mlwydd oed. Mwynheuodd y plant yn fawr iawn.

Glenda Clwyd a'i thelyn

DAU FRAWD O GAERDYDD YN CODI CANOLFAN 5-BOB-OCHR GYNTAF CYMRU

Mae dau frawd o Gaerdydd, sy'n gefnogwyr brwd o'r tîm pêl droed Cenedlaethol wedi mynd â'u cariad at y gêm gam ymhellach drwy agor canolfan bêl droed gwerth £1.25 miliwn ger Ysgol Fitzalan, Treganna, Caerdydd.

Gwilym a Rhys Boore yw Cyfarwyddwyr Canolfannau Gôl a'r brêns y tu ôl i ganolfan bêl droed 5-bob-ochr bwrpasol gyntaf Cymru. Mae'r ddau yn dilyn y tîm Cenedlaethol pan maent yn chwarae gartref ac oddi cartref, yn ddyfarnwyr yn eu hamser sbâr ac wedi chwarae i nifer o dimau lleol.

Penderfynodd Rhys (37) sy'n gyfrifydd a Gwilym (39) sy'n cyhoeddi llyfrau plant gychwyn ar y fenter mewn ymateb i'r alwad am gaeau chwarae o safon i sicrhau fod modd i bobl leol fwynhau gêm o bêl droed.

"Mae'r wyth cae sydd wedi eu gosod yn y Ganolfan yn teimlo ac yn chwarae fel gwair naturiol," medd Rhys. Mae gennym hefyd ystafelloedd newid pwrpasol gyda chawodydd poeth a'n meddylfryd yw darparu'r gorau ar gyfer pêl droedwyr o bob safon yn Ne Cymru.

Cynhaliwyd y gêm gyntaf yng Nghanolfan Gôl, fore Gwener, 13eg o Ionawr am 10 y bore gyda'r gic gyntaf yn cael ei wylio gan y Prif Weinidog, Rhodri Morgan AC.

Am ragor o wybodaeth am Ganolfan Gôl, mae modd cysylltu ar 0870 168 8989, e-bost info@golcentres.co.uk neu ymweld â www.golcentres.co.uk

Taith i Dde Amerig

Fe fydd Criw ohonom yn Gymry Cymraeg, yn teithio i ben draw'r byd ganol mis Awst. Rydym yn mentro i bellafoedd De America, gan ymweld â thair gwlad. Byddwn yn cychwyn yn Lima, ac yn symud ymlaen i ddilyn trywydd yr Inca yn Machu Picchu. Yn ein hail gwlad, Bolifia, byddwn yn aros yn y brifddinas La Paz gan deithio a chroesi Llyn Titikaka. Cawn wythnos o fwynhau ac ymlacio yn ein gwlad ola', sef Brasil. Rio de Janeiro, y ddinas liwgar hon fydd ein cartref yno.

Os hoffech ymuno â ni mae na 'chydig o le ar ôl - gallwch gysylltu â ni, Ann-Marie a Fabio Lewis ar y cyfeiriad - llwchpat@hotmail.com neu ar y ffon 01792-881155.

CROESAIR COL

Dyma gyfle arall i chi ennill Tocyn Llyfrau.

Enillydd Croesair Tachwedd: Heulwen Rees, Heol Iscoed, Efail Isaf.

Atebion i: Croesair Col
34, Pen Bryn Hendy, Yr Encil, Meisgyn,
Pontyclun. CF72 8QX
erbyn 20 Chwefror 2006



Ar Draws

1. Â'r bo ar wib i ganfod yr ysturmant (5)
7. Mae 500 o earth yn cuddio'r dyn dwad (8)
8. Awn i'r ogof ddi-ddiwedd gan ein bod yn chwit-chwat (5)
10. Mae anghyfiawnder i arwyddion yn creu heresi (10)
12. Gwŷr Bess sy'n celu'r eirin Mair (8)
14. Yn ei ragair, mae'n sôn am yr ôd (4)
16. Mae'r trempyn yn dechrau bwrw golwg (4)
17. Cadw og yn sâff ynghlwm wrth nifer o fodrwyau neu ddolenni cysylltiedig (8)
20. Yn llon gyda hanes y newyddion da (10)
23. Yng nghanol moesoli, ac yn fythol (5)
24. Mae Al a Norman o chwith (8)
25. Mae Anwen a'i defaid yn rhoi lloches i'r ysbryd (5)

I Lawr

1. Mae'r braster yn newid siap y bol a'r gên (6)
2. Yn y blocâd gwelir darn o gerrig (4)
3. Mae'r ci yn Lloegr yn cymryd un yn unig am ei fod yn segur (4)
4 Cer i Bontypridd i ddechrau a dod o hyd i wydryn i fesur hylifau (5)
5. Mae'r reis i Nico yn cael ei losgi'n lludw (8)
6. Mae Endaf yn colli 500 oherwydd y cosi (6)
9. Agor y gagendor gyda hollt (5)
11. Fe all tes Gwyn beri awel gref o'r ochr (9)
13. Ar ddiwedd bwyta, cynaeafu ŷd (3)
15. Od i'r byw, felly porthi (5)
16. Cynnal treth ar yr hyn a delir am ddod â nwyddau i mewn i'r wlad (6)
18. Wele D.G. yn edrych ar beth a bod yn anwybodol ohono (6)
19. Achosi niwed i frain - y sarhad (5)
21 Daw Harri i roi ergyd (4)
22. Mae Neil yn ffurfio llinell (4)

Derbyn deg aelod ifanc newydd

(cefn) Gruffudd John, Carys Lloyd, Heledd Watts, Branwen Hefin, Alys Thomas, Meilir Sion. (blaen) Siwan Lloyd, Fflur Angharad, Y Parch Gareth Rowland (gweinidog), Gwenllian Wyn, Geraint Huws.

Ar y bore Sul cyntaf ym mis Rhagfyr derbyniwyd 10 o ieuenctid Capel Bethlehem, Gwaelod y Garth, yn gyflawn aelodau mewn oedfa Gymun.

Yn ystod y gwasanaeth cafwyd cyffro yng nghwmni criw Caib a Delwyn Sion, eu harweinydd, wrth iddynt gyflwyno cân gospel a arweiniodd at y gynulleidfa yn ymuno'n frwdfrydig yn y 'swing'. Cyfeiliodd y band dan arweiniad Delyth i un emyn a chafwyd eitem fendigedig gan ferched ifanc y capel.

LLANTRISANT

Actores a Dramodwraig
Mae Mared Swain, Llantrisant, newydd gwblhau taith o gwmpas Cymru yn perfformio y wrach ym Mhantomeim 'Hela'r Twrch Trwyth'. Mae hi hefyd yn un o bedair awdures sydd wedi creu drama newydd, Dominos, i Theatr Genedlaethol Cymru. Bydd 'Dominos' yn Theatr y Sherman, 14 - 17 Chwefror.

Dawnsio'r 60'au
Roedd neuadd y Ganolfan Hamdden yn llawn ar gyfer noson o ddawnsio i hen ffefrynnau a drefnwyd gan Gymdeithas Gymraeg Llantrisant. Y gobaith yw y bydd y to ifanc yn ymuno i drefnu rhagor o ddigwyddiadau.

Yr Hen Ysgol
Mae bywyd o hyd yn yr hen Ysgol Gymraeg ar y bryn. Mae'r ysgol o dan ofalaeth y Tŷ Model ac yn cynnal nifer o weithdai celf a Gwasanaeth Cerddoriaeth Rhondda Cynon Taf. Mae'n fwrlwm o ganu a cherddorfeydd yn ystod nosweithiau'r wythnos a dydd Sadwrn.

Gweithdy Gofal Plant Meithrinfeydd a Creche

Clwb Criced Morgannwg,
Gerddi Soffia, Caerdydd
Dydd Sadwrn
11/02/2006 am 10yb-3yp

Cyfle i gwrdd â
siaradwyr Cymraeg sydd wedi
llwyddo eisoes
Gwybodaeth berthnasol gan
arbenigwyr
Canllawiau ar yr elfennau
pwysig i'w hystyried wrth sefydlu
busnes

Cysylltwch: Iago John 02920467402
iago@menterabusnes.co.uk

Unwch y dotiau hyn i wneud lluniau

Cornel y Plant









Beth yw bwyd yr anifeiliaid anwes hyn?


neidr


ceirch

cwningen

cricedyn (pry tân)

ci

llysiau

ceffyl

hadau

llygoden

glaswellt


macaw

bisgedi